# ATODIAD A – PENNOD 7.5 AMGYLCHEDD NATURIOL AC ADEILEDIG

## Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Naturiol

### Cefndir a Chyflwyniad

| Cyf Sylw | Enw | Adran | Math | Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog |
|---|---|---|---|---|---|
| 319 | Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru (Mr Chris Wynne) [2626] | 7.5.1 | Gwrthwynebu | Mae'r Cynllun yn iawn i danlinellu pwysigrwydd yr amgylchedd naturiol nid yn unig oherwydd ei werth cynhenid ei hun ond hefyd trwy ddefnydd cynaliadwy adnoddau naturiol. Mae'r adran agoriadol hon yn gosod golygfa negyddol iawn o'r amgylchedd naturiol. Rydym yn awgrymu aralleirio er mwyn adlewyrchu'r agwedd gadarnhaol a gymerwyd mewn rhan arall o'r Cynllun. Diddymu'r pwynt bwled gyntaf a symud pwynt 5 i'r dechrau. | **Derbyn yn rhannol -** Yn hytrach na dileu'r pwynt bwled cyntaf, ystyrir y dylid ail-eirio hwn. Cytunwyd y dylid symud y pumed pwynt bwled i'r 2il safle gyda mân ddiwygiadau i'r geiriad.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Aileirio'r pwnt bwled cyntaf a symud y 5ed pwynt bwled i'r 2il safle yn y rhestr ym mharagraff 7.5.1.<br><br>**Newid â ffocws: NF 80** |
| 320 | Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru (Mr Chris Wynne) [2626] | 7.5.2 | Gwrthwynebu | Er mwyn cael mwy o eglurhad a bod yn fanwl gywir, dylai'r paragraff hwn gynnwys cyfeiriad at y cynefinoedd sydd hefyd wedi'u rhestri yn Adran 42 Deddf Cyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol. Ychwanegu "Cynefinoedd a..." i ddechrau brawddeg 7.5.2. | **Derbyn –** Cytunwyd bod angen crybwyll 'cynefinoedd' fan hyn, yn ogystal â rhywogaethau.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Cynnwys cyfeiriad at gynefinoedd ym mrawddeg agoriadol paragraff 7.5.2<br><br>**Newid â ffocws: NF 81** |

| Cyf Sylw | Enw | Adran | Math | Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog |
|---|---|---|---|---|---|
| 324 | Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru (Mr Chris Wynne) [2626] | 7.5.3 | Cefnogi | Rydym yn croesawu'r gydnabyddiaeth a roddir i bwysigrwydd rhwydweithiau seilwaith glas/gwyrdd ac yn awgrymu y cyfeirir hefyd at y cysyniad o gylchfeydd rhagod i warchod mwy ar y nodweddion hyn. | **Nodi** – Ystyrir bod PS16 yn ddigonol i ddarparu gwarchodaeth heb yr angen i gyflwyno 'cylchfeydd rhagod' pellach. Bydd effaith y datblygiad yn amrywio o safle i safle a bydd yn dibynnu ar y cynefin/rhywogaeth a ddiogelir. Yn hytrach na gosod 'cylchfeydd rhagod', ymdrinnir â'r fath ofynion fesul achos trwy broses y cais cynllunio.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>**Dim Newid** |
| 53 | Oaktree Environmental Ltd (John Williams) [2594] | 7.5.4 | Gwrthwynebu | Mae'r bwriad i ddynodi'r ardal sy'n cynnwys chwarel Moel Tryfan a'r ardal o'i hamgylch yn Ardal Tirwedd Arbennig yn ddiangen ac fe'i lluniwyd i ddiogelu'r dirwedd lle mae eisoes digon o ddarpariaeth i wneud hyn. Er ei fod yn cyfuno dwy Ardal Gwarchod y Dirwedd i greu Ardal Tirwedd Arbennig 07, mae'n cynnwys tir sydd eisoes yn cael digon o warchodaeth gan ddynodiad Gofrestr Tirwedd Hanesyddol. Gallai ychwanegu haen arall o reoliadau fod yn rhwystr i ddatblygu'r chwarel yn y dyfodol felly'n tanseilio, o bosib, effeithlonrwydd polisïau sy'n ymwneud â datblygu'r economi, cefnogi'r Gymraeg a chloddio | **Dim yn derbyn -** Mae Moel Tryfan yn dirwedd nodweddiadol iawn. Mae rhan ohoni wedi'i dynodi'n SoDdGA daearegol ac mae'r safle'n cynnwys nodweddion archeolegol a diwylliannol. Dynodwyd ATA yn dilyn adolygiad manwl o ATA presennol yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn yn 2012 gan LUC.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim Newid** |

| Cyf Sylw | Enw | Adran | Math | Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | mwynau. | |

**PS16 – Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Naturiol**

| Cyf Sylw | Enw | Adran | Math | Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog |
|---|---|---|---|---|---|
| 165 | Rod Dixon [2774] | POLISI STRATEGOL PS16 | Gwrthwynebu | Caiff hwn ei restru fel PS19 dan 7.5 yn y tabl cynnwys.<br><br>Newid i PS16 yn y tabl cynnwys. | **Dim yn derbyn -** Nid yw'n glir i ba wall teipio mae'r gwrthwynebydd yn cyfeirio ato gan nad oes gwall i'w weld yn y copi papur nac yn fersiwn ar-lein y Cynllun.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim Newid** |
| 232 | Ellesmere Sand & Gravel Company Limited [2686] | POLISI STRATEGOL PS16 | Gwrthwynebu | Nid yw'r polisi hwn yn eglur o ran lle mae'n berthnasol iddo e.e. (nid pob holl ased tirwedd a bioamrywiaeth sydd â'r un gwerth). Dylai'r polisi ymwneud â'r lefel leol yn hytrach nag ailadrodd y polisi cenedlaethol. Os ystyrir ei fod yn berthnasol i safleoedd cloddio mwynau, awgrymu newidiadau fel y nodir isod.<br><br>Awgrymu hierarchaeth i asesu effeithiau | **Dim yn derbyn** - Pwrpas PS16 yw amlinellu safle strategol y Cynllun mewn perthynas â'r amgylchedd naturiol a darparu'r cyd-destun ar gyfer polisïau manylach AMG1-AMG5. Tra bod pwynt bwled 2 a 3 y polisi gyfeirio at 'Bolisi Cenedlaethol', nid ystyrir y gellir dehongli hyn fel ailadrodd Polisi Cynllunio Cymru. Mae gan echdynnu mwynau'r potensial i gael effaith sylweddol ar yr amgylchedd naturiol ac ni ddylid ei drin yn wahanol i fathau eraill o ddatblygiad. Ystyrir bod y geiriad presennol yn ymdrin yn ddigonol â'r holl faterion lefel lleol. Yn ychwanegol, ymdrinnir â materion mwynau mewn |

| Cyf Sylw | Enw | Adran | Math | Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | amgylcheddol cynigion datblygu yn ddi ystyriaeth i bolisïau eraill yn y cynllun datblygu. Dylid pwysleisio yn gadarnhaol safleoedd echdynnu mwynau presennol, gan eu hymestyn ar draul datblygu safleoedd newydd. Dylid ystyried effeithiau tros dro ar yr amgylchedd yn wahanol i effeithiau hir dymor ar yr amgylchedd. | manylder penodol mewn mannau arall y Cynllur.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim Newid** |
| 233 | Lafarge Tarmac Trading Limited [2735] | POLISI STRATEGOL PS16 | Gwrthwynebu | Nid yw'r polisi hwn yn eglur o ran yr hyn y mae'n berthnasol iddo (e.e. nid pob ased tirwedd a bioamrywiaeth sydd â'r un gwerth). Dylai'r polisi ymwneud â'r lefel leol yn hytrach nag ailadrodd polisi cenedlaethol. Os ystyrir ei fod yn berthnasol i safleoedd cloddio mwynau, awgrymu newidiadau a nodir isod.<br><br>Awgrymu hierarchaeth i asesu effeithiau amgylcheddol cynigion datblygu yn ddi ystyriaeth i bolisïau eraill yn y cynllun datblygu. Dylid pwysleisio yn gadarnhaol safleoedd echdynnu mwynau presennol, gan eu hymestyn ar draul datblygu safleoedd newydd. Dylid ystyried | **Dim yn derbyn** - Pwrpas PS16 yw amlinellu safle strategol y Cynllun o ran yr amgylchedd naturiol a darparu'r cyd-destun ar gyfer polisïau manylach AMG1-AMG5. Wrth i bwynt bwled 2 a 3 y polisi gyfeirio at 'Bolisi Cenedlaethol', nid ystyrir y gellir dehongli hyn fel ailadrodd Polisi Cynllunio Cymru. Mae gan echdynnu mwynau'r potensial i gael effaith sylweddol ar yr amgylchedd naturiol ac ni ddylid ei drin yn wahanol i fathau eraill o ddatblygiad. Ystyrir bod y geiriad presennol yn ymdrin yn ddigonol â'r holl faterion lefel leol. At hynny, ymdrinnir â materion mwynau mewn manylder penodol mewn mannau eraill.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. |

| Cyf Sylw | Enw | Adran | Math | Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | effeithiau tros dro ar yr amgylchedd yn wahanol i effeithiau hir dymor ar yr amgylchedd. | **Dim Newid** |
| 311 | Cyfeillion LLyn (Mrs Sian Parri) [2871] | POLISI STRATEGOL PS16 | Gwrthwynebu | Dylid cynnwys cyfeiriad penodol at warchod yr AHNE yn unol a Chynllun Rheoli'r AHNE yn unol a'r Ddeddf cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 | **Dim yn derbyn** – Mae maen prawf 2 y polisi yn ymdrin gyda datblygiad arfaethedig o fewn AHNE. Yn ychwanegol, mae paragraff 2.2.4 Polisi Cynllunio Cymru: "Ni ddylid ailadrodd polisi cynllunio cenedlaethol sydd wedi ei osod ym Mholisi Cynllunio Cymru fel polisi mewn CDLlau ond dylai'r cynlluniau esbonio sut y bydd yn berthnasol i'r ardal leol, ac yn hollbwysig sut y bydd polisi cenedlaethol a pholisi lleol yn cydweithio". At hynny, noda paragraff 2.2.5 Polisi Cynllunio Cymru "Ni ddylai cynlluniau ddyblygu darpariaethau sydd mewn cyfundrefnau deddfwriaethol eraill, er enghraifft, mewn rheoliadau iechyd yr amgylchedd ac adeiladu a deddfwriaeth iechyd a diogelwch." Amlinellir y ddeddfwriaeth bresennol a'r polisi ac arweiniad cenedlaethol mewn perthynas ag AHNE yn Nhabl 23 y CDLl ar y Cyd.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim Newid** |
| 325 | Ymddiriedolaeth | POLISI | Gwrthwynebu | NODER Bwriadwyd y sylwadau hyn ar | **Dim yn derbyn** – Ystyrir bod PS16 yn ddigonol i ddarparu gwarchodaeth heb yr angen i gyflwyno |

| Cyf Sylw | Enw | Adran | Math | Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog |
|---|---|---|---|---|---|
| | Natur Gogledd Cymru (Mr Chris Wynne) [2626] | STRATEGOL PS16 | | gyfer PS16 ond ymddengys bod camgymeriad ar ddolen gyswllt y ddogfen ar lein sy'n cysylltu'r polisi hwn â PS19. Rydym yn croesawu polisi PS16 ac yn pwysleisio bod amgylchedd naturiol neilltuol Gwynedd a Môn yn cynnwys cynefinoedd a rhywogaethau prin, cyffredin a nodweddiadol.<br><br>Awgrymwn fod y polisi hwn a thestun cysylltiedig hefyd yn cyfeirio at gylchfeydd rhagod er mwyn gwarchod mwy ar seilwaith gwyrdd a glas (pwynt 5). | 'cylchfeydd rhagod' pellach. Bydd effaith y datblygiad yn amrywio o safle i safle a bydd yn dibynnu ar y cynefin/rhywogaeth a ddiogelir. Yn hytrach na gosod 'cylchfeydd rhagod', ymdrinnir â'r fath ofynion fesul achos trwy broses y cais cynllunio.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim Newid** |
| 343 | Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru (Mr Chris Wynne) [2626] | POLISI STRATEGOL PS16 | Cefnogi | Rydym yn croesawu PS16 ac yn pwysleisio bod amgylchedd naturiol neilltuol Gwynedd a Môn yn cynnwys cynefinoedd a rhywogaethau prin, cyffredin a nodweddiadol.<br><br>Awgrymwn fod cyfeiriad yn y polisi hwn ac mewn testun cysylltiedig hefyd at gylchfeydd rhagod er mwyn gwarchod mwy ar seilwaith gwyrdd a glas (pwynt 5). NODER Bwriadwyd y sylwadau hyn ar gyfer PS16 ond ymddengys bod | **Nodi**<br><br>Ystyrir bod PS16 yn ddigonol i ddarparu gwarchodaeth heb yr angen i gyflwyno 'cylchfeydd rhagod' pellach. Bydd effaith y datblygiad yn amrywio o safle i safle a bydd yn dibynnu ar y cynefin/rhywogaeth a ddiogelir. Yn hytrach na gosod 'cylchfeydd rhagod', ymdrinnir â'r fath ofynion fesul achos trwy broses y cais cynllunio.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>**Dim newid** |

| Cyf Sylw | Enw | Adran | Math | Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | camgymeriad ar ddolen gyswllt y ddogfen ar lein sy'n cysylltu'r polisi hwn â PS19. | |
| 459 | Bourne Leisure Ltd [2768] | POLISI STRATEGOL PS16 | Cefnogi | Mewn egwyddor mae Bourne Leisure yn cefnogi PS16 gan ei fod yn anelu i gadw a gwella'r amgylchedd naturiol. | **Nodi.**<br><br>**Argymhelliad**<br><br>**Dim newid** |
| 493 | Mr Glyn Jones [2971] | POLISI STRATEGOL PS16 | Gwrthwynebu | Polisi cryfach ar gyfer yr AHNE o ran yr angen am Asesiad Effaith Tirwedd a Gweledol o lefel priodol ar gyfer datblygiad a'r angen i gysylltu gyda swyddog tirwedd/ cynllunio yr awdurdod er mwyn cael cyngor am y lefel o AETG sy'n angenrheidiol. | **Dim yn derbyn** – Noda paragraff 2.2.4 Polisi Cynllunio Cymru: "Ni ddylid ailadrodd polisi cynllunio cenedlaethol sydd wedi ei osod ym Mholisi Cynllunio Cymru fel polisi mewn CDLlau ond dylai'r cynlluniau esbonio sut y bydd yn berthnasol i'r ardal leol, ac yn hollbwysig sut y bydd polisi cenedlaethol a pholisi lleol yn cydweithio". At hynny, noda paragraff 2.2.5 Polisi Cynllunio Cymru "Ni ddylai cynlluniau ddyblygu darpariaethau sydd mewn cyfundrefnau deddfwriaethol eraill, er enghraifft, mewn rheoliadau iechyd yr amgylchedd ac adeiladu a deddfwriaeth iechyd a diogelwch." Amlinellir y ddeddfwriaeth bresennol a'r polisi ac arweiniad cenedlaethol mewn perthynas ag AHNE yn Nhabl 23 y CDLl ar y Cyd.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd unrhyw dystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun |

| Cyf Sylw | Enw | Adran | Math | Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | **Dim Newid** |
| 802 | Ty Mawr West ltd (John Hill) [3062] | POLISI STRATEGOL PS16 | Gwrthwynebu | Mae fy nghleient yn dymuno ail adrodd ei farn gadarn y byddai dynodi Dyffryn Nantlle fel Ardal Tirwedd Arbennig yn niweidiol i'r economi leol ac yn ffactor y dylid dal mewn cof mewn ystyriaeth fanwl o'r effeithiau niweidiol o'r dynodiad o'r math. | **Dim yn derbyn –** Mae Dyffryn Nantlle'n ddyffryn dramatig gyda threftadaeth ddiwylliannol bwysig (chwareli llechi) ac mae'n ffinio â Pharc Cenedlaethol Eryri. Dynodwyd ATA (Ardaloedd Tirwedd Arbennig) yn dilyn adolygiad manwl o ATA presennol yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn yn 2012 gan LUC. Ni chyflwynwyd tystiolaeth i wrth-ddweud y rhesymeg y tu cefn i ddynodiad yr ATA hwn.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim Newid** |
| 805 | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE (Cynghorydd Gruffydd Williams) [3090] | POLISI STRATEGOL PS16 | Gwrthwynebu | Cynllun Rheoli'r AHNE - mae hwn yn gynllun statudol a chredir y dylai fod cyfeiriad ato yn y polisiau perthnasol. | **Derbyn** – Noda paragraff 2.2.4 Polisi Cynllunio Cymru: "Ni ddylid ailadrodd polisi cynllunio cenedlaethol sydd wedi ei osod ym Mholisi Cynllunio Cymru fel polisi mewn CDLlau ond dylai'r cynlluniau esbonio sut y bydd yn berthnasol i'r ardal leol, ac yn hollbwysig sut y bydd polisi cenedlaethol a pholisi lleol yn cydweithio". At hynny, noda paragraff 2.2.5 Polisi Cynllunio Cymru "Ni ddylai cynlluniau ddyblygu darpariaethau sydd mewn cyfundrefnau deddfwriaethol eraill, er enghraifft, mewn rheoliadau iechyd yr amgylchedd ac adeiladu a deddfwriaeth iechyd a diogelwch." Amlinellir y ddeddfwriaeth bresennol a'r polisi ac arweiniad |

| Cyf Sylw | Enw | Adran | Math | Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | cenedlaethol mewn perthynas ag AHNE yn Nhabl 23 y CDLl ar y Cyd.<br><br>Serch hynny, ystyrir y byddai o fudd i'r Cynllun trwy wneud diwygiadau i'r Cynllun sy'n tynnu sylw i'r Cynlluniau Rheolaeth AHNE priodol wrth ymdrin gyda cheisiadau cynllunio<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Diwygio paragraff 7.5.13 i gyfeirio at Gynlluniau Rheolaeth AHNE. Yn ogystal cynnwys Polisi ychwanegol sy'n gwneud yn ofynnol i ystyried Cynlluniau Rheolaeth AHNE wrth ymdrin gyda cheisiadau cynllunio.<br><br>**Newid â ffocws: NF 82 & NF 85** |
| 806 | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE (Cynghorydd Gruffydd Williams) [3090] | POLISI STRATEGOL PS16 | Gwrthwynebu | AHNE - nid oed polisi penodol o ran cynnal a gwarchod yr AHNE. Yn hytrach mae polisiau cyffredinol a chyfeiriad at ddeddwriaeth a pholisi cenedlaethol. Credir fod angen polisi penodol ar gyfer cynnal a chadw'r AHNE, tebyg i Bolisi B8 yn y cynllun presennol. | **Dim yn derbyn** – Mae maen prawf 2 y polisi yn ymdrin gyda datblygiad arfaethedig o fewn AHNE. Yn ychwanegol, mae paragraff 2.2.4 Polisi Cynllunio Cymru: "Ni ddylid ailadrodd polisi cynllunio cenedlaethol sydd wedi ei osod ym Mholisi Cynllunio Cymru fel polisi mewn CDLlau ond dylai'r cynlluniau esbonio sut y bydd yn berthnasol i'r ardal leol, ac yn hollbwysig sut y bydd polisi cenedlaethol a pholisi lleol yn cydweithio". At hynny, noda paragraff 2.2.5 Polisi Cynllunio Cymru "Ni ddylai cynlluniau ddyblygu darpariaethau sydd mewn cyfundrefnau deddfwriaethol eraill, er enghraifft, mewn rheoliadau iechyd yr amgylchedd ac adeiladu |

| Cyf Sylw | Enw | Adran | Math | Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | a deddfwriaeth iechyd a diogelwch." Amlinellir y ddeddfwriaeth bresennol a'r polisi ac arweiniad cenedlaethol mewn perthynas ag AHNE yn Nhabl 23 y CDLl ar y Cyd.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim Newid** |
| 812 | Cymdeithas Dinesig Bangor 1 (Don Mathew) [2988] | POLISI STRATEGOL PS16 | Cefnogi | Mae Cymdeithas Dinesig Bangor yn dymuno cefnogi PS16. | **Nodi.**<br><br>**Argymhelliad**<br><br>**Dim newid** |
| 891 | Ffrindiau Borth-y-Gest(Tom Brooks) [3036] | POLISI STRATEGOL PS16 | Gwrthwynebu | Mae gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol yn bolisi yr ydym yn gefnogol iawn ohono. Nid ydym yn teimlo'n gyfforddus bod safleoedd o bwysigrwydd lleol i Borth-y-Gest, sef gwarchodfeydd natur lleol Parc y Borth a Phen y Banc, a'u continwwm ecolegol cyfagos yn cael eu hadnabod yn addas, yn unol ag AMG4 cadwraeth bioamrywiaeth leol.<br><br>Mae Tabl 23 yn restr bwysig o ddynodiadau gwarchodaeth natur | **Dim yn derbyn** – Mae Tabl 23 yn rhoi manylion ar yr amserlen dynodiadau cadwraeth natur statudol ac mae'n bwysig darllen y tabl hwn yng nghyd-destun y paragraffau blaenorol. Yn unol â pharagraff 5.3.11 Polisi Cynllunio Cymru a pharagraff 5.5.1 TAN 5, ystyrir Cynllunio a Chadwraeth Natur (2009) Gwarchodfeydd Natur Lleol yn 'ddynodiadau anstatudol/safleoedd lleol'. O ganlyniad, ni fyddai'n briodol cyfeirio at Warchodfeydd Natur Lleol dan Dabl 23. At hynny, ystyrir y gellir rhoi diogelwch digonol i Warchodfeydd Natur Lleol dan bolisi AMG5 y Cynllun Datblygu Lleol. |

| Cyf Sylw | Enw | Adran | Math | Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | pwysig, ond nid ydyw'n cyfeirio at warchodfeydd natur lleol nac anstatudol a chredwn y dylid hyn. Ymhellach i hyn, nid yw'r map cyfyngiadau yn ddigon penodol i adnabod nodweddion yn glir. Nid yw Pen y Banc yn cael ei adnabod yn glir fel GNLl, ac rydym yn ansicr o ran Parc y Borth ac felly hoffem weld hyn yn cael ei gywiro. | **Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim Newid** |
| 898 | Bourne Leisure Ltd [2768] | POLISI STRATEGOL PS16 | Cefnogi | Mae Bourne Leisure yn ategu PS16 mewn egwyddor gan ei fod yn ceisio gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol. Mae amgylchedd naturiol Gwynedd yn brif atyniad ymwelwyr yn yr ardal ac felly cefnoga Bourne Leisure y dyhead i ddiogelu a gwarchod yr amgylchedd naturiol ble bo'n bosib. Yn wir, datgenir yn y Cynllun Rheoli Cyrchfan 2013-2020 bod 54% o ymwelwyr wedi ymweld â Gwynedd oherwydd yr olygfa/y dirwedd.<br><br>Lleolir parciau gwyliau Greenacres a Hafan y Môr mewn ardaloedd sy'n sensitif o ran yr amgylchedd. Dyweda Bourne Leisure na ddylid diystyru | **Nodi**<br><br>**Argymhelliad**<br><br>**Dim Newid** |

| Cyf Sylw | Enw | Adran | Math | Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | datblygiadau yn y safleoedd hyn ar yr amod bod y datblygiad yn addas i'r lleoliad ac y gellid gweithredu mesurau lliniaru cymesurol i liniaru effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol.<br><br>Hoffai Bourne Leisure bwysleisio nad oes gan bob datblygiad y gallu i effeithio'n negyddol ar dirwedd, golygfeydd cyhoeddus a gofod agored pwysig. | |
| 900 | Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169] | POLISI STRATEGOL PS16 | Gwrthwynebu | Rhoddir pwyslais amhriodol o isel ar yr AHNE yn nrafft y CDLl ar y Cyd o'i gymharu â'r CDUG. Dylid cael ymrwymiad lleol sy'n llawer mwy positif a phenodol i'r dyletswyddau statudol i warchod tirweddau sydd wedi'u dynodi'n genedlaethol a'u gosodiadau, yn unol â SP2, B8 a B14 y CDUG. Dylid cyfeirio'n benodol at Gynlluniau Rheoli'r AHNE. | **Dim yn derbyn** – Mae maen prawf 2 y polisi yn ymdrin gyda datblygiad arfaethedig o fewn AHNE. Yn ychwanegol, mae paragraff 2.2.4 Polisi Cynllunio Cymru: "Ni ddylid ailadrodd polisi cynllunio cenedlaethol sydd wedi ei osod ym Mholisi Cynllunio Cymru fel polisi mewn CDLlau ond dylai'r cynlluniau esbonio sut y bydd yn berthnasol i'r ardal leol, ac yn hollbwysig sut y bydd polisi cenedlaethol a pholisi lleol yn cydweithio". At hynny, noda paragraff 2.2.5 Polisi Cynllunio Cymru "Ni ddylai cynlluniau ddyblygu darpariaethau sydd mewn cyfundrefnau deddfwriaethol eraill, er enghraifft, mewn rheoliadau iechyd yr amgylchedd ac adeiladu a deddfwriaeth iechyd a diogelwch." Amlinellir y ddeddfwriaeth bresennol a'r polisi ac arweiniad cenedlaethol mewn perthynas ag AHNE yn Nhabl 23 y CDLl ar y Cyd. |

| Cyf Sylw | Enw | Adran | Math | Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | **Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim Newid** |
| 1092 | Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resource Wales (Ymgynhoriadau Cynllunio) [1521] | POLISI STRATEGOL PS16 | Gwrthwynebu | O ran Polisi PS16 ac AMG4 mae ANC'n cwestiynu a oes angen y ddau bolisi ac a ddylid eu hymgorffori mewn un Polisi 'Bioamrywiaeth'. Trwy gael un polisi, fel Polisi NTE/3 CDLl Conwy, byddai'n rhoi'r strwythur polisi i ddiogelu rhywogaethau o bwysigrwydd Ewropeaidd, Cenedlaethol a lleol yn ogystal â chyfeirio at yr angen i gyrraedd targedau'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol. Dylai'r polisi gynnwys hierarchaeth sy'n diffinio'n eglur y lefel o ddiogelwch i'w gynnig i safleoedd a rhywogaethau, a chynnwys cyfeiriad at y rhywogaethau yn Adran 42 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1991 gan fod dyletswydd ar yr Awdurdod i ddiogelu o dan Ddeddf NERC (2006). | **Dim yn derbyn -** Cyfeiria PS16 at yr amgylchedd naturiol ac mae'n ymdrin â graddfa wahanol, sy'n fwy trosfwaol – fel y nodwyd gan y teitl 'Polisi Strategol', lle mae AMG4 yn darparu rhagor o wybodaeth yn ymwneud â rhoi'r polisi hwn ar waith yn ymarferol i'r lefel achos cynllunio ar gyfer bioamrywiaeth, sy'n gulach na'r 'amgylchedd naturiol'. Felly, ystyrir bod y ddau bolisi ar wahân yn gyfiawn.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim Newid** |
| 1182 | Pwêr Niwclear Horizon(Miss | POLISI STRATEGOL | Gwrthwynebu | Mae camgymeriad teipio yn y cyflwyniac: Dylai fod yn "effect", nid "affect".<br>Mae Horizon o'r farn bod angen cynnwys | **Derbyn yn rhannol** – Derbyniwyd bod yna wall teipio yn y fersiwn Saesneg o'r rhagarweiniad a dylid diwygio hyn yn unol â hynny. |

| Cyf Sylw | Enw | Adran | Math | Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog |
|---|---|---|---|---|---|
| | Sarah Fox) [2919] | PS16 | | mwy o hyblygrwydd yn y polisïau hyn fel y bydd modd caniatáu cynigion y rhagwelir eu bod am gael effaith andwyol, yn amodol ar bennu mesurau lliniaru digonol, efo cynllun gweithredu priodol i gefnogi hynny. Yn hytrach na cheisio cael newidiadau penodol i'r polisïau hyn, mae Horizon yn cynnig dibynnu ar y polisïau penodol ar gyfer Wylfa Newydd sy'n cael eu cynnig uchod. Rheiny fyddai'r polisïau perthnasol ar gyfer gwneud ymatebion ymgynghori i'r cais Gorchymyn Caniatâd Datblygu ac i benderfynu ar geisiadau datblygu cysylltiedig. | Ystyrir bod digon o hyblygrwydd yn y polisïau presennol i ddarparu ar gyfer mathau priodol o ddatblygiad. Fel unrhyw fath o ddatblygiad arall, bydd angen i unrhyw gais cynllunio/DCO mewn perthynas â'r Wylfa Newydd ystyried yr holl bolisïau perthnasol yn y CDLl.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Cywiro gwall teipio yn y fersiwn Saesneg o'r CDLl ar y Cyd.<br><br>**Newid Bychan: NB 17** |
| 1423 | NFU Cymru (Dafydd Jarrett) [3285] | POLISI STRATEGOL PS16 | Gwrthwynebu | Hoffai NFU Cymru wneud y sylwadau cyffredinol canlynol ar y polisïau rheoli datblygu sydd wedi ei gynnwys yn y Cynllun drafft. Dylai'r Cynllun hyrwyddo tirwedd o ansawdd uchel ac adnabod rôl amaethyddiaeth yn hyn. | **Dim yn derbyn** - Tra cydnabyddir y cyfraniad y mae amaethyddiaeth wedi'i chwarae wrth greu 'tirwedd ansawdd uchel' y Cynllun, ni fyddai'n briodol cyfeirio at rôl amaethyddiaeth fel yr awgrymwyd gan y gwrthwynebydd yng nghyd-destun polisi PS16.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. |

| Cyf Sylw | Enw | Adran | Math | Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | **Dim Newid** |
| 1439 | Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resource Wales (Ymgynhoriadau Cynllunio) [1521] | POLISI STRATEGOL PS16 | Gwrthwynebu | Mae angen ystyriaeth bellach i ardrawiad posib datblygiad ar statws cadwraeth ffafriol rhywogaethau a warchodir. Mae'r rhywogaethau sy'n bresennol yng Ngwynedd ac Ynys Môn yn cynnwys dyfrgwn, ystlumod, llygod dwr. Dylai polisïau perthnasol sicrhau bod datblygiad arfaethedig yn cael eu hasesu o dan y Cynllun ac yn achos dynodiadau bod ystyriaeth lawn a phriodol yn cael ei roi i rywogaethau a warchodir er mwyn cydymffurfio a gofynion deddfwriaeth berthnasol. | **Nodi'r sylw** – Noda paragraff 2.2.4 Polisi Cynllunio Cymru: "Ni ddylid ailadrodd polisi cynllunio cenedlaethol sydd wedi ei osod ym Mholisi Cynllunio Cymru fel polisi mewn CDLlau ond dylai'r cynlluniau esbonio sut y bydd yn berthnasol i'r ardal leol, ac yn hollbwysig sut y bydd polisi cenedlaethol a pholisi lleol yn cydweithio". At hynny, noda paragraff 2.2.5 Polisi Cynllunio Cymru "Ni ddylai cynlluniau ddyblygu darpariaethau sydd mewn cyfundrefnau deddfwriaethol eraill, er enghraifft, mewn rheoliadau iechyd yr amgylchedd ac adeiladu a deddfwriaeth iechyd a diogelwch." Mae Pennod 5 Polisi Cynllunio Cymru, ynghyd â TAN 5 yn darparu arweiniad cynllunio mewn perthynas â dynodiadau rhyngwladol a chenedlaethol a ddiogelir gan ddeddfwriaeth.<br><br>Mewn perthynas â PS16, mae pwynt bwled 6 eisoes yn cyfeirio at "Ddiogelu rhywogaethau sydd wedi'u gwarchod yn rhyngwladol, cenedlaethol ac yn lleol". At hynny, mae polisïau AMG4 ac AMG5 yr CDLl ar y Cyd yn darparu'r cyd-destun cynllunio lleol mewn perthynas â rhywogaethau rhanbarthol/lleol.<br><br>Bydd y Cynghorau yn parhau i gysylltu gyda CNC wrth ymdrin gyda cheisiadau cynllunio. Wrth ystyried cynigion datblygu (gan gynnwys tir sydd wedi ei ddyrannu yn y cynllun) bydd yr awdurdodau |

| Cyf Sylw | Enw | Adran | Math | Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | cynllunio lleol yn ystyried ardrawiad amgylcheddol, er mwyn osgoi, ble mae'n ymarferol bosibl, effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd.<br><br>**Recommendation**<br><br>Dim angen newid i ymdrin gyda'r materion sy'n deillio o'r gynrychiolaeth yma.<br><br>**Dim Newid** |
| 1443 | Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resource Wales (Ymgynhoriadau Cynllunio) [1521] | POLISI STRATEGOL PS16 | Gwrthwynebu | Mae nifer o safleoedd a ddynodwyd du mewn i, wrth ymyl neu'n agos i AHNE Llŷn ac Ynys Môn. Rydym yn atgoffa'r Awdurdod o'i ddyletswydd o dan Adran 85 o'r Ddeddf cefn Glwad a Mynediad 2000, sy'n dweud bod rhaid i gyrff cyhoeddus roi sylw i'r amcan o warchod a gwella harddwch naturiol AHNE. Credir lle bod yna bosibilrwydd i ddynodiad gael effaith andwyol sylweddol ar yr AHNE a'i ardal cysylltiedig, byddai'n rhaid asesu'r safle yn rymus o ran ei ardrawiad andwyol ar fwynderau a rhinweddau'r AHNE | **Nodi'r sylw** – Noda paragraff 2.2.4 Polisi Cynllunio Cymru: "Ni ddylid ailadrodd polisi cynllunio cenedlaethol sydd wedi ei osod ym Mholisi Cynllunio Cymru fel polisi mewn CDLlau ond dylai'r cynlluniau esbonio sut y bydd yn berthnasol i'r ardal leol, ac yn hollbwysig sut y bydd polisi cenedlaethol a pholisi lleol yn cydweithio". At hynny, noda paragraff 2.2.5 Polisi Cynllunio Cymru "Ni ddylai cynlluniau ddyblygu darpariaethau sydd mewn cyfundrefnau deddfwriaethol eraill, er enghraifft, mewn rheoliadau iechyd yr amgylchedd ac adeiladu a deddfwriaeth iechyd a diogelwch." Amlinellir y ddeddfwriaeth bresennol a'r polisi ac arweiniad cenedlaethol mewn perthynas ag AHNE yn Nhabl 23 y CDLl ar y Cyd.<br><br>Bydd y Cynghorau yn parhau i gysylltu gyda CNC wrth ymdrin gyda cheisiadau cynllunio. Wrth ystyried cynigion datblygu (gan gynnwys tir sydd |

| Cyf Sylw | Enw | Adran | Math | Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | wedi ei ddyrannu yn y cynllun) bydd yr awdurdodau cynllunio lleol yn ystyried ardrawiad amgylcheddol, er mwyn osgoi, ble mae'n ymarferol bosibl, effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Dim angen newid i ymdrin gyda'r materion sy'n deillio o'r gynrychiolaeth yma.<br><br>**Dim Newid** |
| 1444 | Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resource Wales (Ymgynhoriadau Cynllunio) [1521] | POLISI STRATEGOL PS16 | Gwrthwynebu | Mae rhai dynodiadau o fewn neu'n agos i dirweddau sydd wedi cael eu cofrestru gan CADW fel Tirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol. Tra nad yw hyn yn ddynodiad statudol, mae Pennod 6 o Bolisi Cynllunio Cymru yn nodi y dylai fod yn ystyriaeth cynllunio perthnasol yn y broses cynllunio ac y dylid rhoi ystyriaeth iddo. | **Dim yn derbyn** – Ymdrinnir â Thirweddau Hanesyddol Cofrestredig o dan bolisi PS17<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim Newid** |
| 429 | Cyngor Tref Ffestiniog (Mrs Ann Coxon) [2940] | POLISI STRATEGOL PS16 | Gwrthwynebu | Sylw ychwanegol<br><br>Dylid cynnwys yn y Cynllun na ddylid gymeradwyo unrhyw gais cynllunio sy'n gwneud niwed sylweddol i goetir hynafol, yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru. | **Derbyn yn rhannol –** Mae paragraff 5.2.9 PCC yn cynnwys datganiadau ar bolisi rheoli datblygiad cenedlaethol mewn perthynas â choed a choetiroedd, gan gynnwys coetiroedd hynafol a lled-naturiol ac felly nid oes angen eu hailadrodd fel polisi lleol mewn Cynlluniau Datblygu Lleol. |

| Cyf Sylw | Enw | Adran | Math | Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Dylid nodi y dylid manteisio ar bob cyfle i blannu coed mewn llefydd addas er mwyn gwella'r amgylchedd lleol. | **Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim Newid** |

**AMG1 – Aradloedd o Dirwedd Arbennig**

| Cyf Sylw | Enw | Adran | Math | Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog |
|---|---|---|---|---|---|
| 54 | Oaktree Environmental Ltd (John Williams) [2594] | POLISI AMG1 | Gwrthwynebu | Mae'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig a nodir ar y Map Cynigion yn gorgyffwrdd â dynodiadau tirwedd eraill sy'n ymddangos bod ganddynt yr un pwrpas o warchod y dirwedd. Pan geir y cyfryw gorgyffwrdd, dylid rhoi ystyriaeth i ostwng maint yr Ardal Tirwedd Arbennig er mwyn osgoi dyblygu ardaloedd dynodedig. O ran safle ein cleient, sydd o fewn Ardal Tirwedd Arbennig 07 arfaethedig, mae'r dirwedd yn nodweddiadol o'r diwydiant cloddio mwynau sydd yn yr ardal ac ni ddylai fod yn ormod o faich ar gloddio mwynau yn yr ardal yn y dyfodol. | **Dim yn derbyn** - Dynodwyd ATA yn dilyn adolygiad manwl o ATA presennol yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn yn 2012 gan LUC. Ni chyflwynwyd tystiolaeth i wrthwynebu'r rhesymeg y tu cefn i'r dynodiad ATA hwn a chyfiawnhau'r gostyngiad o ran arwynebedd y mae'n ymestyn drosto. Mae gan y diwydiant echdynnu mwynau'r potensial i gael effaith sylweddol ar y dirwedd ac ni ddylid ei drin yn wahanol i fathau eraill o ddatblygiad.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim Newid** |

| Cyf Sylw | Enw | Adran | Math | Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog |
|---|---|---|---|---|---|
| 234 | Ellesmere Sand & Gravel Company Limited [2686] | POLISI AMG1 | Gwrthwynebu | Dylid bod pwyslais cadarnhaol ar safleoedd cloddio mwynau presennol neu estyniadau i'r safleoedd hynny dros safleoedd newydd. Dylid edrych ar effeithiau amgylcheddol dros dro yn wahanol i effeithiau amgylcheddol tymor hir. Dylid bod pwyslais cadarnhaol ar safleoedd cloddio mwynau presennol neu estyniadau i'r safleoedd hynny dros safleoedd newydd. Dylid edrych ar effeithiau amgylcheddol dros dro yn wahanol i effeithiau amgylcheddol tymor hir. | **Dim yn derbyn** - Mae gan y diwydiant echdynnu mwynau'r potensial i gael effaith sylweddol ar y dirwedd ac ni ddylid ei drin yn wahanol i fathau eraill o ddatblygiad. Nid yw'r polisi hwn yn gwahardd/cyfyngu'n benodol ar echdynnu mwynau o fewn ATA ond mae'n sicrhau bod digon o wybodaeth ar gael i'r Awdurdod Cynllunio Lleol wneud dewisiadau deallus ar geisiadau cynllunio.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim Newid** |
| 235 | Lafarge Tarmac Trading Limited [2735] | POLISI AMG1 | Gwrthwynebu | Dylid bod pwyslais cadarnhaol ar safleoedd cloddio mwynau presennol neu estyniadau i'r safleoedd hynny dros safleoedd newydd. Dylid edrych ar effeithiau amgylcheddol dros dro yn wahanol i effeithiau amgylcheddol tymor hir. Dylid bod pwyslais cadarnhaol ar safleoedd cloddio mwynau presennol neu estyniadau i'r safleoedd hynny dros safleoedd newydd. Dylid edrych ar effeithiau amgylcheddol dros dro yn wahanol i effeithiau amgylcheddol tymor | **Dim yn derbyn** - Mae gan y diwydiant echdynnu mwynau'r potensial i gael effaith sylweddol ar y dirwedd ac ni ddylid ei drin yn wahanol i fathau eraill o ddatblygiad. Nid yw'r polisi hwn yn gwahardd/cyfyngu'n benodol ar echdynnu mwynau o fewn ATA ond mae'n sicrhau bod digon o wybodaeth ar gael i'r Awdurdod Cynllunio Lleol wneud dewisiadau deallus ar geisiadau cynllunio.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. |

| Cyf Sylw | Enw | Adran | Math | Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | hir. | **Dim Newid** |
| 291 | Mr Myrddin Roberts [2858] | POLISI AMG1 | Gwrthwynebu | Nid yw'r Swyddogion sy'n llunio'r Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd wedi dwyn i mewn yn ddigonol randdeiliaid lleol megis cynghorau cymuned, ffermwyr, tirfeddianwyr a thrigolion cyn dynodi Ardaloedd o Dirwedd Arbennig ar fap Ynys Môn, yn enwedig felly ar gyfer yr Ardal Tirwedd Arbennig o'r enw Llethrau Coediog Biwmares a Glen Llangoed. Fi sy'n digwydd bod yn Gadeirydd Cyngor Cymuned Llanddona, felly gwn nad oes yr un swyddog wedi bod yn ein cyfarfodydd. Fel trigolion, dylem fod wedi cael gwybod am y newid mawr arfaethedig yn y polisi hwn. Ni chafwyd trafodaeth ystyrlon yn amlinellu'r goblygiadau ar fusnesau, tir a chartrefi. Bod Polisi AMG1 yn cael ei ddileu tan fod pob rhanddeilwyr wedi cael ei hysbysu am y cyflwyniad arfaethedig o'r ATAau a bod trafodaeth a chytundeb yn cael ei gyrraedd gan bob parti perthnasol, yn enwedig y gymuned leol a swyddogion y Cynllun ar y Cyd. | **Dim yn derbyn -** Dynodwyd ATA yn dilyn adolygiad manwl o ATA presennol yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn yn 2012 gan LUC. Ar Ynys Môn, roedd yr hen Ardal Tirwedd Arbennig yn ymestyn bron dros ardal yr Awdurdod Unedol gyfan. Mae'r ATA newydd yn disodli'r hen ddynodiad a bellach ond yn ymwneud â rhannau penodol o ardal yr Awdurdod Unedol.<br><br>O ganlyniad, ni ddylid ystyried ATA fel dynodiad newydd ac ni fydd ganddynt oblygiadau mwy i fusnesau a thrigolion lleol na'r rhai sy'n bodoli ar hyn o bryd. Bydd dynodiad ffurfiol yr ATA yn cael ei wneud trwy broses ymgynghori'r CDLl.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd unrhyw dystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun<br><br>**Dim Newid** |

| Cyf Sylw | Enw | Adran | Math | Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog |
|---|---|---|---|---|---|
| 365 | Dr Morag McGrath [231] | POLISI AMG1 | Gwrthwynebu | Mae'n anodd deall sut gall datblygiad 'ychwanegu' at nodweddion hanesyddol, gweledol, daearyddol, ecolegol a diwylliannol y ATA'. Newid y geiriad i 'i gynnal, cyfoethogi neu adfer cymeriad ac ansawdd cydnabyddedig' fel yn 7.5.10. | **Derbyn –** Ystyriwyd y byddai hyn yn gwella eglurder y polisi ac yn darparu cysondeb gyda pharagraff 7.5.10.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Newid geiriad y polisi i 'gynnal, gwella neu adfer y cymeriad cydnabyddedig'.<br><br>**Newid â ffocws: NF 83** |
| 375 | Rheilffordd Eryri (Mr Graham Farr) [254] | POLISI AMG1 | Cefnogi | Mae'r Cwmni'n cefnogi'r polisi fel y'i geirir. Gweler sylwadau ar wahân y Cwmni yng nghyswllt yr ardal y mae'n berthnasol iddi. | **Nodi**<br><br>**Argymhelliad**<br><br>**Dim Newid** |
| 460 | Bourne Leisure Ltd [2768] | POLISI AMG1 | Gwrthwynebu | Mae Bourne Leisure yn ystyried y dylai AMG1 datgan yn glir bod yna bosibilrwydd cryf y bydd cyfleusterau ymwelwyr mewn AGT oherwydd yr angen eu lleoli yn agos i'r arfordir. Mae cyfleusterau ymwelwyr o hyd yn newid, gyda ailddatblygu a gwella safleoedd yn digwydd trwy gydol yr amser, er mwyn cwrdd a marchnad ymwelwyr dynamig. Mae Bourne Leisure yn ystyried y gall datblygiad priodol ddod ymlaen hyd yn oed mewn lleoliadau AGT os gellir gweithredu mesurau lliniaru priodol i | **Dim yn derbyn** – ni ddylid trin y diwydiant twristiaeth yn wahanol i unrhyw fath o ddatblygiad arall. Nid yw'r polisi hwn yn rhwystro datblygiad priodol o fewn ATA ond yn amlinellu sut bydd y fath gynigion yn cael eu hystyried yn y cyd-destun cynllunio lleol.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim Newid** |

| Cyf Sylw | Enw | Adran | Math | Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | ymdopi gydag ardrawiadau uniongyrchol ac anuniongyrchol. | |
| 609 | Mr Paul Madden [3032] | POLISI AMG1 | Gwrthwynebu | Nodwyd y cyfan o Ynys Môn o dan bolisi 31 yng Nghynllun Lleol Ynys Môn fel Ardal Tirwedd Arbennig (SLA). Yn y Cynllun sydd ar fin ei gyhoeddi, dim ond rhai ardaloedd sy'n cael eu nodi fel SLA, a gellid dynodi'r holl ynys yn SLA wrth ddefnyddio'r meini prawf cyfredol. Gall Môn cael ei dyfranu gyda statws uwch geoparc byd-eang sy'n cyfateb i safle treftadaeth y byd. Nid yw'n cynnig gwarchodaeth digonol yn erbyn datblygiadau anaddas ac mae'n gwrthdroi polisi hirdymor heb gyfiawnhad digonol. Dylid dynodi'r cyfan o Ynys Môn yn SLA. | **Dim yn derbyn –** Dynodwyd ATA yn dilyn adolygiad manwl o ATA presennol yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn yn 2012 gan LUC.<br><br>Mae'r rhesymeg y tu cefn i ddynodi Geoparciau Byd-eang yn sylweddol wahanol i'r rhesymeg ar gyfer ATA. Mae a wnelo statws Geoparc â chydnabod ansawdd uchel treftadaeth ddaearegol leol, lle gall mwy o werthfawrogiad a dealltwriaeth o dreftadaeth ddaearegol fod o fantais i bobl a busnesau lleol trwy fentrau twristiaeth ac addysg. Nid oes gan statws Geoparc unrhyw sail ddeddfwriaethol na goblygiadau cynllunio defnydd tir.<br><br>At hynny, mae Geoparciau eisoes wedi'u diogelu trwy bolisïau CDLl eraill, er enghraifft PS17 (ail bwynt bwled) a pholisi AMG5.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd unrhyw dystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun<br><br>**Dim Newid** |

| Cyf Sylw | Enw | Adran | Math | Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog |
|---|---|---|---|---|---|
| 808 | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE (Cynghorydd Gruffydd Williams) [3090] | POLISI AMG1 | Gwrthwynebu | Mewn rhai mannau mae'r ardal yma (ATA Gorllwein Llyn) yn ffinio gyda'r AHNE ac yn creu gwarchodiad i osodiad yr AHNE. Fodd bynnag, mae rhai rhannau o'r AHNE hen warchodaeth yma. Credir felly dylid cyfeirio at warchod gosodiad yr AHNE yn y polisiau perthnasol. | **Dim yn derbyn –** Cyfeirir at fater a wnaed yn y frawddeg olaf ym mholisi AMG2 sy'n datgan "Bydd ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i ddatblygiadau sydd yn effeithio ar gymeriad y tirwedd a gosodiad yr AHNE neu'r Parc Cenedlaethol".<br><br>Serch hynni nodir bod gwall yn y fersiwn Gymraeg a dylid ychwanegu 'yn uniongyrchol' ar ôl "effeithiau" yn frawddeg olaf polisi AMG2 er mwyn fod yn gyson gyda'r fersiwn Saesneg.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Dylid cynnwys y geiriau 'yn uniongyrchol' ar ôl "effeithiau" yn frawddeg olaf polisi AMG2<br><br>**Newid Bychan: NB 18** |
| 811 | Cyngor Cymuned Botwnnog (Mrs Gwenda Roberts) [1541] | POLISI AMG1 | Gwrthwynebu | Mae Cynllun Gwarchod y Tirlwedd newydd Arfordirol eto yn cyfyngu ar hawliau trigolion Pen Llŷn drwy eu rhwystro i godi tai yn eu hardal eu hunain. Bydd cefn gwlad yn marw ar ei thraed a gwelir diboblogi - os daw i hynny bydd diwylliant a'r arferion unigryw sy'n perthyn i gefn gwlad yn cael ei colli am | **Dim yn derbyn –** ystyrir mai sylw cyffredinol yw ac nad oes ganddo unrhyw berthnasedd i bolisi AMG1. Ni fydd ATA yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar leoliad tai yn ardal y Cynllun a fydd yn cael ei arwain gan y polisïau tai perthnasol yn yr CDLl.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r |

| Cyf Sylw | Enw | Adran | Math | Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | byth. Oni fydd edifar gan y Cyngor i golli adnodd mor werthfawr a hyn? | Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun<br><br>**Dim Newid** |
| 880 | Mr John Tripp [252] | POLISI AMG1 | Cefnogi | Falch o weld 5 ardal gadwraeth yn Ynys Mon. | **Nodi.**<br><br>**Argymhelliad**<br><br>**Dim Newid** |
| 892 | Barton Willmore (Mr Mark Roberts) [1645] | POLISI AMG1 | Gwrthwynebu | Mae'r polisi yn ceisio sicrhau nad yw datblygiad o fewn ATA yn cael effaith andwyol ar y dirwedd. Mae'r prawf a'r gofyn hwn yn rhy feichus ac yn anghymesur â statws yr ATA. Mae hefyd yn ymarferol amhosib cyflawni unrhyw ddatblygiad heb gael rhyw fath o effaith ar y diwedd. | **Derbyn yn rhannol –** derbynnir bod yr ymadrodd 'na fydd yn cael effaith andwyol' yn rhy drwm. Fodd bynnag, yn hytrach na'r newid a awgrymwyd gan y gwrthwynebydd, dylid diwygio'r geiriad i 'na fydd yn cael effaith andwyol sylweddol' er mwyn i'r geiriad fod yn gyson â gweddill y polisi.<br><br>Nid polisi 'dal popeth' yw Polisi AMG2 ac mae angen ei ddarllen yng nghyd-destun yr CDLl cyfan.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Diwygio geiriad brawddeg gyntaf polisi AMG i 'dim effaith andwyol sylweddol'<br><br>**Newid â ffocws: NF 83** |
| 899 | Bourne Leisure Ltd [2768] | POLISI AMG1 | Gwrthwynebu | Mae AMG1 yn caniatáu datblygiad i ddod yn ei flaen ar yr amod bod ei raddfa a'i natur yn addas ac na fydd effaith andwyol | **Dim yn derbyn** – ni ddylid trin y diwydiant twristiaeth yn wahanol i unrhyw fath o ddatblygiad arall. Nid yw'r polisi hwn yn rhwystro datblygiad priodol o fewn ATA ond yn amlinellu sut bydd y fath |

| Cyf Sylw | Enw | Adran | Math | Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | ar y dirwedd.<br><br>Felly, mae Polisi AMG1 yn darparu sail bolisi gadarnhaol i ddatblygiadau addas ddod yn eu blaen yn yr ATA.<br><br>Hoffai Bourne Leisure bwysleisio nad oes gan bob datblygiad y gallu i effeithio'n negyddol ar dirwedd, golygfeydd cyhoeddus a gofod agored pwysig.<br><br>Mae Bourne Leisure yn ystyried y dylai AMG1 ddatgan yn glir bod tebygolrwydd uchel y byddai cyfleusterau twristiaeth hefyd wedi'u lleoli mewn ATA oherwydd yr angen iddynt gael eu lleoli ger yr arfordir. Mae cyfleusterau twristiaeth yn newid yn gyson, gydag ailddatblygu a rhesymoli safleoedd yn digwydd pob amser, er mwyn cwrdd ag anghenion marchnad dwristiaeth ddeinamig. | gynigion yn cael eu hystyried yn y cyd-destun cynllunio lleol.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd unrhyw dystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun<br><br>**Dim Newid** |
| 901 | Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169] | POLISI AMG1 | Gwrthwynebu | Rydym yn cefnogi'r pwyslais newydd ar warchodaeth leol trwy'r ATAu (AMG1) Dylid pwysleisio eu rôl fel cylchfeydd rhagod i warchod gosodiad yr ANHE a dylid eu hatgyfnerthu trwy ehangu ATA'u | **Dim yn derbyn** - Dynodwyd ATA yn dilyn adolygiad manwl o ATA presennol yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn yn 2012 gan LUC. Ystyrir bod diogelu lleoliadau'r AHNE yn cael ei gwmpasu'n ddigonol gan ddeddfwriaeth bresennol ac arweiniad cynllunio cenedlaethol ac nid oes |

| Cyf Sylw | Enw | Adran | Math | Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | sy'n agos i'r ardaloedd hynny o'r AHNE heb warchodaeth. Dylid egluro bod sgôp a bwriad AMG2 yn wahanol i AMG1. Dylid pwysleisio eu rôl fel cylchfeydd rhagod i warchod gosodiad yr ANHE a dylid eu hatgyfnerthu trwy ehangu ATA'u sy'n agos i'r ardaloedd hynny o'r AHNE heb warchodaeth. | angen eu hailadrodd ar lefel leol.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd unrhyw dystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun<br><br>**Dim Newid** |
| 904 | Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169] | POLISI AMG1 | Gwrthwynebu | Eglurhad ar fanylion y newidiadau arfaethedig i Ardal Tirwedd Arbennig Gorllewin Llŷn o gymharu ag Ardal Gwarchod y Dirwedd Gorllewin Llŷn ger Abersoch a Phwlheli a'r rhesymau am hyn. | **Dim yn derbyn** - Dynodwyd ATA yn dilyn adolygiad manwl o ATA presennol yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn yn 2012 gan LUC. Mae copi o'r adroddiad hwn ar wefan y Cyngor er mwyn i'r cyhoedd ei weld.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim Newid** |
| | | | | dylai'r strwythur dderbyn proffil uwch ochr yn ochr â phroffil Castell Biwmares a Chastell Caernarfon oherwydd ei bwysigrwydd hyd yn oed heddiw i ddyfodol Porthladd Caergybi - mae pwrpas y strwythur yn parhau yr un mor bwysig ag yr oedd pan gafodd ei adeiladu dros 150 o flynyddoedd yn ôl. | eu nodi ar y Map Cyfyngiadau rhyngweithiol. Bydd cynnwys adeiladau rhestredig ar y map hwn o gymorth i wneud darpar ddatblygwyr yn ymwybodol ohonynt.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Dim newid i'r CDLl ar y Cyd ond cynnwys adeiladau rhestredig ar y map Cyfyngiadau rhyngweithiol.<br><br>**Newid Bychan: NB** |
| 1183 | Pwêr Niwclear Horizon(Miss Sarah Fox) [2919] | POLISI STRATEGOL PS17 | Gwrthwynebu | Mae Horizon o'r farn bod angen cynnwys mwy o hyblygrwydd yn y polisïau hyn fel y bydd modd caniatáu cynigion y rhagwelir eu bod am gael effaith andwyol, yn amodol ar bennu mesurau lliniaru digonol, efo cynllun gweithredu priodol i gefnogi hynny. Yn hytrach na cheisio cael newidiadau penodol i'r polisïau hyn, mae Horizon yn cynnig dibynnu ar y polisïau penodol ar gyfer Wylfa Newydd sy'n cael eu cynnig uchod. Rheiny fyddai'r polisïau perthnasol ar gyfer gwneud ymatebion ymgynghori i'r cais Gorchymyn Caniatâd Datblygu ac i benderfynu ar geisiadau datblygu cysylltiedig. | **Dim yn derbyn** - ystyrir bod y polisi yn ddigon hyblyg. Cyfrifoldeb y datblygwyr yw dangos y bydd eu cynnig 'yn cynnal ac yn gwella asedau treftadaeth, eu gosodiad a golygfeydd sylweddol i mewn i adeilad neu ardal ac allan ohonynt'. Fel pob datblygiad arall bydd angen i unrhyw geisiadau a ddaw yn sgil cynllun Wylfa Newydd gydymffurfio gyda'r cyfan o'r polisïau perthnasol o fewn y Cydgynllun Datblygu Lleol.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim newid** |

## Polisiau Rheoli Datblygu Cenedlaethol

| Cyf Sylw | Enw | Adran | Math | Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog |
|---|---|---|---|---|---|
| 488 | Gwasanaeth Cynllunio Archeoloegol Gwynedd(Mr Ashley Batten) [2959] | 7.5.31 | Gwrthwynebu | Mae'n werth nodi fod yr adnodd archeolegol yn ddeinamig (yn hytrach na sefydlog) ac yn datblygu'n gyson. Deuir ar draws safleoedd archeolegol trwy'r adeg a chaiff safleoedd newydd o bwys cenedlaethol eu hychwanegu at Restr yr Henebion Rhestredig wrth iddynt gael eu hasesu a'u pwysigrwydd gael ei gydnabod. | **Nodi –** Ni anghytunir gyda'r sylw hwn. Caiff yr holl ddynodiadau statudol eu dangos ar y Map Cyfyngiadau a chaiff y Map ei ddiweddaru o fewn cyfnod y cynllun i adlewyrchu'r wybodaeth ddiweddaraf fydd ar gael.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim newid** |
| 653 | Cyng/Counc R. Ll. Jones [300] | 7.5.31 | Gwrthwynebu | Eglurhad cliriach yn y paragraff ynghylch 'dim gofyn statudol' ac o ran pa mor effeithiol yw'r CDLl wrth warchod ein treftadaeth a'n henebion rhestredig.<br><br>Eglurhad cliriach o'r datganiad fel yn nhudalen 182 a'r 'gofyn statudol'. | **Derbyn yn rhannol** – Mae'r Llysoedd yn awr wedi derbyn nad yw Adran 54A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (Adran 38(6) o Ddeddf 2004) yn berthnasol i geisiadau am hawl Adeiladau Rhestredig (ARh) nac Ardaloedd Cadwraeth (AC) ond dylai cynlluniau gynnwys polisïau sydd yn berthnasol i reoli datblygu, sef polisïau y dylid eu hystyried wrth lunio barn ar geisiadau am ganiatadau ARh/AC.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Diwygio'r geiriad er mwyn gwneud yn eglur bod hyn yn seiliedig ar gyfraith achos.<br><br>**Newid â ffocws: NF 87** |

| Cyf Sylw | Enw | Adran | Math | Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog |
|---|---|---|---|---|---|
| 830 | Robert Llewelyn Jones [3058] | 7.5.31 | Gwrthwynebu | Rwy'n gofyn i'r Map Cyfyngiadau ddangos ardaloedd Cadwraeth - CCA yn glir. Ni fyddwn yn dymuno i'r un sefyllfa godi yn Nhraeth Newry eto nac mewn unrhyw leoliad arall ar Ynys Môn. Buaswn yn dweud nad yw'r Cynllun yn gadarn oherwydd diffyg gwarchodaeth ar gyfer Ardal Gadwraeth Traeth Newry/Caergybi.<br><br>Mae'n bwysig iawn i'r Pwyllgor Cynllunio gael canllawiau cynllunio sy'n hawdd i'w darllen ac i beidio â dibynnu ar swyddogion i'w tynnu i'w sylw. Nid yw'n hawdd deall y Cynllun Adnau oni bai eich bod yn barod i dreulio llawer o amser yn ei astudio. Gwnewch o'n fwy ystyriol o'r gymuned - fel ei fod yn gyfeirlyfr cyffredin i bawb. | **Dim yn derbyn –** Mae Ardaloedd Cadwraeth eisoes yn ymddangos ar y Map Cyfyngiadau rhyngweithiol. Bydd Polisi AT1 (PCC) a'r CCA arfaethedig ar Asedau Treftadaeth yn darparu'r fframwaith polisi sydd ei hangen ar gyfer cynllunio defnydd tir, er mwyn canfod a yw cais yn cynnal ac yn gwella ardaloedd cadwraeth.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim newid** |
| 489 | Gwasanaeth Cynllunio Archeoloegol Gwynedd(Mr Ashley Batten) [2959] | 7.5.32 | Gwrthwynebu | At hyn, dylai datblygwr gadw CAH mewn cof wrth ffurfio polisïau os byddant yn ystyried yr adnodd archeolegol/amgylchedd hanesyddol sydd heb ei ddynodi. | **Dim yn derbyn –** Mae Paragraff 7.5.32 yn cyfeirio at y cyd-destun cenedlaethol a amlinellir yn 25. Cytunwn y dylai Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol fod yn ystyriaeth wrth ddarparu ceisiadau datblygu, ond credir hefyd y bydd gwell ymdriniaeth o'r mater hwn yn y CCA ar Asedau Treftadaeth – caiff hwn ei baratoi o fewn 18 mis yn dilyn mabwysiadu'r Cynllun. |

| Cyf Sylw | Enw | Adran | Math | Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | **Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim newid** |
| 658 | Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169] | 7.5.34 | Cefnogi | Rydym yn falch o weld y bydd y diffiniad o osodiad yn debygol o fod un ai'n gyfyng neu'n eang yn ddibynnol ar y lleoliad penodol. Mae hyn yn synhwyrol er ei fod yn elfen o warchodaeth fydd bob amser yn anodd i'w arddangos. Mae'n beth da bod yn barod am drafodaeth.<br><br>Cefnogaeth yn gyffredinol, ond awgrymir rhai meysydd sydd angen mwy o fanylion neu fwy o bwyslais. | **Nodi**<br><br>**Argymhelliad**<br><br>**Dim newid** |
| 59 | Oaktree Environmental Ltd (John Williams) [2594] | 7.5.35 | Gwrthwynebu | Efallai nad oes gan safle 'arfaethedig' fawr ddim statws ac eithrio hynny y gallai safle fanteisio arno yn sgil rhyw ddynodiad cyfredol. O gofio mai chwarel lechi weithio yw safle ein cleient o fewn ffin cais arfaethedig am Safle Treftadaeth y Byd, dylai'r pwysau | **Dim yn derbyn –** mae Cyngor Gwynedd a'i bartneriaid yn awr yn paratoi cais 'DCMS' i enwebu diwydiant llechi Gogledd Cymru ar gyfer ei gynnwys gan UNESCO fel STB. Er mwyn gyrru'r gwaith yn ei flaen bydd yn rhaid i Gyngor Gwynedd a'i bartneriaid brofi ar y cychwyn bod mesurau mewn lle i ddiogelu nodweddion yn yr ardal sydd yn arddangos gwerth bydeang arbennig posibl. Ystyrir y bydd cydnabod y cais am statws STB o fewn y CDLl ar y |

| Cyf Sylw | Enw | Adran | Math | Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | sydd ynghlwm wrth unrhyw gais am statws Treftadaeth y Byd fod yn gymesur â'r cam a gyrhaeddwyd gyda'r cais. Cadarnhau faint o bwysau bydd yn cael ei roi i statws safle arfaethedig pan yn ystyried ceisiadau datblygu a pu ai fydd y pwysau yma yn cynyddu fel mae'r cais Safle Treftadaeth y Byd yn symud ymlaen. | Cyd yn cwrdd â'r gofyn hwn.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim newid** |

**AT1 – Ardaloedd Cadwraeth, Safleoedd Treftadaeth y Byd a Thirweddau, Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig**

| Cyf Sylw | Enw | Adran | Math | Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog |
|---|---|---|---|---|---|
| 673 | Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169] | 7.5.37 | Gwrthwynebu | Ni cheir unrhyw fanylion o ran cynnwys yr Asesiad. Dylid cofio effaith bosib ar olion gwaelodol a gwybodaeth archeolegol, yn ogystal â materion ffurf a deunyddiau.<br><br>Cefnogaeth yn gyffredinol, ond mae rhai meysydd lle'r awgrymir bod angen mwy o fanylion neu fwy o bwyslais. | **Dim yn derbyn -** Ystyrir y dylid ymdrin â chynnwys/fformat Asesiad Ardrawiad Treftadaeth o fewn y CCA arfaethedig yn hytrach nag yn y CDLl ar y Cyd ei hun. Mae crynodeb o'r materion y dylid eu cynnwys i'w weld ym mharagraff 7.5.39 o'r CDLl ar y Cyd.<br><br>**Argymhelliad -**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim newid** |

## AT3 – Asedau Treftadaeth Nad Ydynt Wedi'u Dynodi Sydd o Arwyddocâd Lleol Neu Ranbarthol

| Cyf Sylw | Enw | Adran | Math | Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog |
|---|---|---|---|---|---|
| 362 | Mr Geoff Wood [2916] | Policy AT3 | Gwrthwynebu | Dan rai amgylchiadau, efallai y byddai'n briodol gwarchod ased treftadaeth a/neu ddiogelu diwylliant Cymreig trwy drin adeilad, sydd mewn cyflwr drwg neu sy'n mynd â'i ben iddo ond sy'n dal i sefyll, fel bod defnydd rheolaidd yn cael ei wneud ohono.<br><br>Diwygio rhan 1 i ddatgan "Ailddefnyddio ac atgyweirio adeiladau ac ardaloedd hanesyddol segur nad oes digon o ddefnydd wedi bod arnynt yn sympathetig sy'n gyson a'u cadwraeth;" | **Nodi –** Y mae Polisi AT3 eisioes yn hyrwyddo ail-ddefnyddio asedau treftadaeth cyn belled ag y gwneir hyn mewn modd ymatebol. Bydd ystod o bolisïau yn y Cynllun yn darparu'r fframwaith berthnasol ar gyfer y defnydd arfaethedig e.e. TAI19, sydd yn gofyn am adeilad sydd yn 'adeiladol gadarn'.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim newid** |
| 495 | Gwasanaeth Cynllunio Archeoloegol Gwynedd(Mr Ashley Batten) [2959] | Policy AT3 | Gwrthwynebu | Dylid hefyd ystyried dehongli, rheolaeth, mynediad, ymgysylltu â'r cyhoedd a manteision addysgol eraill law yn llaw ag ailddefnyddio adeiladau hanesyddol, safleoedd archeolegol, henebion ac asedau hanesyddol eraill. | **Derbyn** - Cytuno bod rheoli a thynnu sylw'r cyhoedd a'r perchennog at werth asedau treftadaeth lleol yn bwysig. Bydd y Cyngor yn gweithio gydag Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd er mwyn datblygu'r CCA Asedau Treftadaeth i gyd-fynd â hyn.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Dim newid i'r Cynllun ond ymgynghori gydag Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd er mwyn datblygu'r CCA Asedau Treftadaeth<br><br>**Dim newid** |

| Cyf Sylw | Enw | Adran | Math | Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog |
|---|---|---|---|---|---|
| 675 | Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169] | Policy AT3 | Gwrthwynebu | Mae eglurhad y polisi hwn yn synhwyrol ac yn glir ond mae'r polisi ei hun wedi'i frawddegu'n wael ac o'r herwydd mae'n anodd i'w ddeall. Ceir gormod o sôn am 'wella' yma a gall hyn arwain at golli'r gwir gymeriad hanesyddol os na ellir amlygu mwy mai polisi cadwraeth yw hwn.<br><br>Cefnogaeth yn gyffredinol, ond awgrymir rhai meysydd sydd angen mwy o fanylion neu fwy o bwyslais. | **Derbyn** - Cytuno y gellid diwygio'r geiriad er mwyn gwneud sgôp y polisi yn fwy eglur. Fodd bynnag, ystyrir ei bod yn hanfodol sicrhau na fydd unrhyw newidiadau i'r polisi yn gwanhau'r 'agwedd bositif' tuag at warchod asedau treftadaeth nad ydynt wedi eu dynodi ond sydd i'w hyrwyddo o dan y CDLl ar y Cyd.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Diwygio geiriad y polisi.<br><br>**Newid â ffocws: NF 88** |
| 499 | Gwasanaeth Cynllunio Archeoloegol Gwynedd(Mr Ashley Batten) [2959] | 7.5.43 | Cefnogi | Mae'r adnodd archeolegol yn ddeinamig a cheir hyd i bethau newydd ac adrodd arnynt yn rheolaidd (ychwanegir dros 2000 o gofnodion newydd i Gofnod yr Amgylchedd Hanesyddol yn flynyddol). | **Nodi**<br><br>**Argymhelliad**<br><br>**Dim newid** |

## AT4 – Diogelu Safleoedd Archeolegol Nad Ydynt Wedi'u Dynodi

| Cyf Sylw | Enw | Adran | Math | Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog |
|---|---|---|---|---|---|

| Cyf Sylw | Enw | Adran | Math | Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog |
|---|---|---|---|---|---|
| 244 | Ellesmere Sand & Gravel Company Limited [2686] | POLISI AT4 | Gwrthwynebu | Oherwydd eu hunion natur, gall rhai safleoedd cloddio mwynau gael rhyw gymaint o effaith ar safleoedd archeolegol nad ydynt wedi'u dynodi. Ystyrir bod y polisi'n rhy anhylaw ac nid yw'r geiriau 'gallai' a 'posib' yn derfynol.<br><br>Awgrymir fod y polisi yn cael ei ddileu ac yn cael ei gynnwys drwy benderfyniad yn ystod y broses cyn cyflwyno cais a'r rhestr leol sydd yn gofyn am asesiad archaeolegol ble mae diddordeb archaeoloegol wedi ei leoli | **Dim yn derbyn –** Ni ddylid ymdrin â chloddio mwynau yn wahanol i unrhyw ddull arall o ddatblygu. Mae'r polisi hwn yn gyson gyda pharagraff 6.4.2 o PCC sydd yn nodi fel a ganlyn: "Ni fydd yr holl weddillion o bwys cenedlaethol sy'n teilyngu eu cadw o reidrwydd yn rhai cofrestredig. Gellir hefyd ddynodi gweddillion o'r fath ac, mewn amgylchiadau priodol, weddillion archeolegol eraill nas cofrestrwyd sydd o bwys mwy lleol, a'u lleoliadau, mewn cynlluniau datblygu fel rhai sy'n arbennig o deilwng i'w cadw."<br><br>Mae'r polisi hwn yn darparu arweiniad clir ynghylch yr hyn a ddisgwylir o safbwynt safleoedd archeolegol nad ydynt wedi eu dynodi ac sydd gyda'r potensial i fod yn arwyddocaol.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim newid** |
| 245 | Lafarge Tarmac Trading Limited [2735] | POLISI AT4 | Gwrthwynebu | Oherwydd eu hunion natur, gall rhai safleoedd cloddio mwynau gael rhyw gymaint o effaith ar safleoedd archeolegol nad ydynt wedi'u dynodi. Ystyrir bod y polisi'n rhy anhylaw ac nid yw'r geiriau gallai' a 'posib' yn derfynol. | **Dim yn derbyn –** Ni ddylid ymdrin â chloddio mwynau yn wahanol i unrhyw ddull arall o ddatblygu. Mae'r polisi hwn yn gyson gyda pharagraff 6.4.2 o PCC sydd yn nodi fel a ganlyn: "Ni fydd yr holl weddillion o bwys cenedlaethol sy'n teilyngu eu cadw o reidrwydd yn rhai cofrestredig. Gellir hefyd ddynodi gweddillion o'r fath ac, mewn amgylchiadau priodol, weddillion archeolegol eraill nas cofrestrwyd sydd o bwys mwy lleol, a'u |

| Cyf Sylw | Enw | Adran | Math | Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Awgrymir fod y polisi yn cael ei ddileu ac yn cael ei gynnwys drwy benderfyniad yn ystod y broses cyn cyflwyno cais a'r rhestr leol sydd yn gofyn am asesiad archaeolegol ble mae diddordeb archaeoloegol wedi ei leoli. | lleoliadau, mewn cynlluniau datblygu fel rhai sy'n arbennig o deilwng i'w cadw."<br><br>Mae'r polisi hwn yn darparu arweiniad clir ynghylch yr hyn a ddisgwylir o safbwynt safleoedd archeolegol nad ydynt wedi eu dynodi ac sydd gyda'r potensial i fod yn arwyddocaol.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun |
| 494 | Gwasanaeth Cynllunio Archeoloegol Gwynedd(Mr Ashley Batten) [2959] | POLISI AT4 | Gwrthwynebu | Lle nad ystyrir bod gweddillion o bwysigrwydd cenedlaethol ac nid ystyrir bod eu gwarchodaeth ('diogelwch in situ') yn briodol (gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol a'u hymgynghorwyr archeolegol) yna lliniaru amgen (diogelu trwy gofnod') fydd y camau priodol i'w cymryd yn unol â chylchlythyr 60/96. Ar ôl cloddio, rhaid sicrhau y caiff y canlyniadau eu cyhoeddi a'u dosbarthu gyda phwyslais ar fanteision i'r cyhoedd, yn enwedig felly fanteision addysgol i'r gymuned leol. Rhaid i'r holl waith fod yn unol â'r safonau a nodir gan Sefydliad Siartredig yr Archeolegwyr. | **Derbyn -** Ystyrir bod y mater hwn wedi derbyn sylw ym mrawddeg olaf polisi AT4 ac ym mharagraff 7.5.46 Fodd bynnag, i egluro gofynion y polisi, ystyrir y byddai'n berthnasol cynnwys geiriad addas, tebyg i'r hyn a awgrymir gan y Gwrthwynebydd, ar ddiwedd paragraff 7.5.46 a chynnwys manylion pellach ar Asedau Treftadaeth yn y CCA - caiff hwn ei ddarparu o fewn 18 mis wedi mabwysiadu'r Cynllun.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Cynnwys geiriad addas, tebyg i'r hyn a awgrymir gan y Gwrthwynebydd, ar ddiwedd paragraff 7.5.6<br><br>**Newid â ffocws: NF 89** |

| Cyf Sylw | Enw | Adran | Math | Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog |
|---|---|---|---|---|---|
| 496 | Gwasanaeth Cynllunio Archeoloegol Gwynedd(Mr Ashley Batten) [2959] | 7.5.45 | Gwrthwynebu | Mae angen ystyried posibilrwydd archeolegol. Mae modd rhagdybio posibilrwydd archeolegol yn hytrach nac ymateb yn unig i safleoedd archeolegol y gwyddys amdanynt. Er enghraifft, mae posibilrwydd i ddatblygiadau graddfa fwy ddadlennu gwybodaeth archeolegol newydd ar draws tirweddau lle gallai'r sylfaen wybodaeth gyfredol fod yn brin. Mewn amgylchiadau fel hyn, hyd yn oed lle nad oes fawr o dystiolaeth ar y pryd, efallai bydd gofyn cael gwerthusiad archeolegol i sefydlu tystiolaeth sylfaenol. At hyn, mae'r adnodd archeolegol yn ddeinamig ac mae nifer, lleoliad a dosbarthiad safleoedd archeolegol yn cynyddu trwy'r adeg. | **Dim yn derbyn -** Tra'n derbyn y sylw, nodir bod polisi AT4 eisoes yn cyfeirio at 'safleoedd o bwysigrwydd cenedlaethol posib'. O ganlyniad, teimlir y gellir ymdrin yn ddigonol â'r mathau o safleoedd archeolegol a nodir gan y Gwrthwynebydd o dan bolisi AT4. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid** |

# Rheoli Gwastraff

## PS18 – Rheoli Gwastraff

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| 444 | Môn a Gwynedd Friends of the Earth (Mr Richard Mills) [2937] | POLISI STRATEGOL PS18 | Gwrthwynebu | Dylai Polisi Strategol PS18, a'r polisïau cysylltiedig, gyfeirio at strategaethau lleihau gwastraff, gan adlewyrchu targedau yn y Rhaglen Atal Gwastraff Cymru. Fe ddylai'r CDLl ar y Cyd annog neu orfodi datblygwyr i osgoi gwastraff ac i ail-ddefnyddio ac ailgylchu gwastraff a gynhyrchir yn ystod y cyfnod dymchwel a/ neu adeiladu. | **Ddim yn derbyn** - Mae'r mater wedi derbyn sylw digonol ym Mholisi PS5: Datblygu Cynaliadwy.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim newid** |
| 807 | Tŷ Mawr West ltd (John Hill) [3062] | POLISI STRATEGOL PS18 | Gwrthwynebu | PS18 Rheoli Gwastraff<br>Dylai'r hierarchaeth gwastraff gynnwys darpariaeth ar gyfer y defnydd addas o wastraff anadweithiol fyddai'n cael ei ddefnyddio mewn gwaith adfer tir a ddefnyddiwyd yn flaenorol. | **Ddim yn derbyn** - Mae deunyddiau anadweithiol a ddefnyddir mewn gwaith adfer yn hytrach na gweithrediadau gwaredu gwastraff eisoes wedi derbyn sylw ym Mharagraff 4.23 TAN 21: Gwastraff (Llywodraeth Cynulliad Cymru). Ni ddylid ailadrodd Polisi Cenedlaethol yn y Cynllun Datblygu Lleol.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim newid** |
| 987 | Welsh Slate Ltd | POLISI STRATEGOL | Gwrthwynebu | Tra mae'r cwmni yn cefnogi'r strategaeth gyffredinol mae o'r farn y dylid gwneud | **Ddim yn derbyn** - Mae deunyddiau anadweithiol a ddefnyddir mewn gwaith adfer yn hytrach na |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| | [3147] | PS18 | | cyfeiriad clir i'r defnydd o wastraff anadweithiol addas wrth adfer tir a ddefnyddiwyd o'r blaen, heb ystyried pwy oedd y defnyddiwr blaenorol. | gweithrediadau gwaredu gwastraff eisoes wedi derbyn sylw ym Mharagraff 4.23 TAN 21: Gwastraff (Llywodraeth Cynulliad Cymru). Ni ddylid ailadrodd Polisi Cenedlaethol yn y Cynllun Datblygu Lleol.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim newid** |

## GWA 1– Darparu Isadeiledd Rheoli Gwastraff Ac Ailgylchu

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| 374 | Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru (Mr Chris Wynne) [2626] | POLISI GWA1 | Gwrthwynebu | Mae safle Penygroes yn cynnwys tir sydd wedi'i ddynodi'n Safle Bywyd Gwyllt lleol. Dylid symud hwn o'r ffin ddatblygu. Byddai hwn hefyd yn gylchfa ragod well rhwng y safle gwastraff a'r afon gyfagos. | **Dim yn derbyn -** Safleoedd Bywyd Gwyllt yw lleoedd a ystyrir o bwysigrwydd lleol am werth eu bioamrywiaeth. Maent yn safleoedd anstatudol heb eu dynodi gan unrhyw ddeddf benodol ond gan gyfres o bolisïau a deddfwriaeth.<br><br>Cydnabyddir fod yna werth bioamrywiaeth leol i'r |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | rhan fwyaf dwyreiniol o'r safle sydd wedi cael ei ddynodi. Ystyrir fod yna bolisïau o fewn y cynllun a fyddai'n rhoi ystyriaeth briodol i werthoedd bioamrywiaeth y safle yn ystod y broses o gyflwyno cais cynllunio.<br>**Argymhelliad**<br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br>**Dim newid** |
| 492 | Mon a Gwynedd Friends of the Earth (Mr Richard Mills) [2937] | POLISI GWA1 | Gwrthwynebu | Fe ddylid ail-lunio'r rhestr o isadeiledd rheoli gwastraff ac ailgylchu i gymryd ystyriaeth o'r sgôp i ymgorffori cyfleusterau gwastraff cylchol o fewn cymunedau, gan gydnabod pwysigrwydd a roddir i'r cyfleusterau yma yn "Tuag At Ddyfodol Diwastraff" a'r Cynllun Sector Bwrdeistrefol. | **Ddim yn derbyn** - Mae'r mater wedi derbyn sylw digonol ym Mholisi PS5: Datblygu Cynaliadwy.<br>**Argymhelliad**<br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br>**Dim newid** |
| 1447 | Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resource Wales | POLISI GWA1 | Cefnogi | Mae CNC yn croesawu bod y Polisi yma yn caniatáu cyfleusterau rheoli gwastraff | **Nodi'r sylw yn cefnogi**<br>**Argymhelliad** |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| | (Ymgynghoriadau Cynllunio) [1521] | | | ar rai dynodiadau cyflogaeth. | **Dim newid** |

**GWA2 – Rheoli Gwastraff Tu Allan I Ffiniau Datblygu A Safleoedd Dynoededig**

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| 1448 | Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resource Wales (Ymgynghoriadau Cynllunio) [1521] | POLISI GWA2 | Gwrthwynebu | Nid yw GWA2 yn dweud sut fydd y trothwyon 7 mlynedd a 5 mlynedd ar gyfer cyflenwad tirlenwi yn cael ei fonitro a sut fydd yr ACLl yn gweithio gydag Awdurdodau eraill i gyfarch y galw, os oes angen. Cydnabyddir bod gan dirlenwi rôl sydd yn lleihau ond fe ddylai'r Cynllun gydnabod yr angen am gydweithio rhanbarthol er mwyn cwrdd â'r galw am dirlenwi ar draws Gogledd Cymru a sut fydd yn cydweithio gydag awdurdodau i gwrdd â'r galw. Dylid rhoi hyn yn y polisi er mwyn cyd-fynd gyda TAN21. | **Derbyn** – Dylid cynnwys mwy o eglurder a fydd yn pwysleisio'r angen am gydweithio a monitro. Cynnwys paragraff newydd ar ôl 7.5.55.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Er mwyn sicrhau cywirdeb y Cynllun.<br><br>**Newid â ffocws: NF90** |

**GWA3 – Trin a Storio Gwastraff Ymbelydrol Lefel Isel Ac Isel Iawn**

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| 615 | Cyng/Counc R. Ll. Jones [300] | POLISI GWA3 | Gwrthwynebu | Mae'r polisi hwn yn rhoi ardal Ynys Môn a Gwynedd mewn perygl o ddod yn dir i adael ar ôl, trin a storio gwastraff ymbelydrol. Gwnaed y datganiad fod ymbelydredd lefel isel eisoes yn cael ei gynhyrchu mewn busnesau presennol. A yw hyn yn diystyru'r orsaf niwclear newydd sy'n cael ei gynnig, neu a yw hyn yn berthnasol i Wylfa A yn unig? Ni phleidleisiodd ein Cygnor Sir o blaid storio deunyddiau ymbelydrol ar y safle a dylid diffinio hyn yn glir ym Mholisi GWA3.<br><br>Newidiadau i'r Cynllun<br>Eglurhad o ran storio gwastraff niwclear a sut y mae'r polisïau'n cyfeirio at yr Wylfa Newydd arfaethedig. | **Derbyn yn Rhannol** - Mae cynhyrchwyr gwastraff ymbelydrol isel ac isel iawn yn ardal y Cynllun yn barod, yn cynnwys yr Orsaf Bŵer Niwclear bresennol yn Wylfa. Er mwyn gwaredu LLW, mae'n rhaid i'r sawl sy'n cynhyrchu'r gwastraff a gweithredwr y cyfleuster gwastraff sy'n ei dderbyn gael trwydded o dan y rheoliadau gwastraff ymbelydrol - felly mae mesurau rheoli a rheoleiddio llym ar waith ar gyfer trin Gwastraff Ymbelydrol Isel ac Isel Iawn.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Er mwyn eglurder, argymhellir cynnwys diffiniad o'r hyn a olygir gan wastraff Ymbelydrol Lefel Isel ac Isel Iawn.<br><br>**Newid â ffocws: NF91** |
| 796 | Mr Rob Booth [3033] | POLISI GWA3 | Gwrthwynebu | Mae Tudalen 191 GWA3 yn bolisi ar gyfer trin a storio gwastraff ymbelydrol. Mae hyn yn amlygu un o brif broblemau | **Derbyn** – Mae gwastraff ymbelydrol yn fater sy'n achos pryder a byddai o fudd cynnwys mwy o eglurder ynghylch yr hyn a olygir gan wastraff |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | cael gorsaf bŵer niwclear. Mae'r gwastraff yn beryglus ofnadwy ac yn anodd a pheryglus i'w storio. Ni ellir niwtraleiddio'r gwastraff ymbelydrol, gan fod hanner bywyd Plwtoniwm yn 24,000 o flynyddoedd.<br><br>Newid i'r Cynllun<br>Mae angen diffiniad o wastraff ymbelydrol lefel isel a lefel isel iawn; pa fath o wastraff ymbelydrol? Os caiff y polisi hwn ei gadw, awgrymaf fod rhaid iddo restru pa isotopau ymbelydrol e.e. plwtoniwm 239. Os oes gofyn i wastraff ymbelydrol gael ei storio, dylid ei storio yn yr orsaf bŵer. | ymbelydrol isel ac isel iawn.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Er mwyn eglurder, argymhellir cynnwys diffiniad o'r hyn a olygir gan wastraff Ymbelydrol Lefel Isel ac Isel Iawn.<br><br>**Newid â ffocws: NF91** |

## Mwynau

### PS19 – Mwynau

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| 246 | Ellesmere Sand & Gravel Company Limited [2686] | POLISI STRATEGOL PS19 | Gwrthwynebu | Awgrymu hierarchaeth i gefnogi safleoedd cloddio mwynau presennol, yna estyniadau i safleoedd presennol cyn ystyried safleoedd newydd. Er hynny, dylid ystyried y dylai'r Cyngor gynnal banc tir am O LEIAF saith mlynedd ar gyfer Tywod a Graean bob amser. Dylid ystyried cynlluniau adfer amgen ar wahân i'r traddodiad o ddychwelyd i safleoedd tir gwyrdd. Dylid ystyried safleoedd segur a rhai sydd heb eu gweithio ers cyfnod hir yn ffynhonnell werthfawr bosib o fwynau y mae modd galw arni pan fo'r galw'n uchel a phan nad yw'r banc tir ar gael yn llwyr.<br><br>Bydd ymestyn safleoedd echdynnu mwynau presennol yn cael eu hybu ar draul datblygu unrhyw safleoedd newydd. Dylid y Cyngor ystyried cyflenwi O LEIAF 7 mlynedd o fanc tir ar gyfer Tywod a Graean ar unrhyw adeg ac y dylid rhoddi rhagdybiaeth gadarnhaol tuag at echdynnu mwyn ar y safleoedd presennol hynny. Dylid edrych i annog | **Ddim yn derbyn** - Mae pwynt 9 yn adlewyrchu gofynion Polisi Cynllunio Mwynau Llywodraeth Cymru, a’r canllawiau perthnasol yn MTAN 1: Agregau a’r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar Agregau (Adolygiad Cyntaf 2014).<br><br>Nid yw’r awgrym o hierarchaeth yn gynaliadwy gan fod pob safle’n cael ei asesu yn ôl ei haeddiant, yn unol â’r holl bolisïau sydd wedi’u cynnwys yn y Cynllun yn ogystal â pholisïau cenedlaethol.<br><br>Ystyrir bod materion banc tir yn derbyn sylw priodol yn y polisi.<br><br>Gall cynlluniau adfer amgen gynnwys rhai er budd mwynderol a bioamrywiaeth, ond mae’r sylw’n amwys o ran unrhyw ddefnyddiau arfaethedig. Mae’n rhaid i unrhyw gynigion ar gyfer ôl-ddefnydd gydymffurfio â pholisïau ac amcanion y Cynllun Datblygu Lleol.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus a fyddai’n cyfiawnhau diwygio’r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | defnydd amgen i safleoedd echdynnu mwynau dros eu hadfer i dir gwyrdd ble mae hynny'n addas. Tynnu allan pwynt 9. | **Dim Newid** |
| 247 | Lafarge Tarmac Trading Limited [2735] | POLISI STRATEGOL PS19 | Gwrthwynebu | Awgrymu hierarchaeth i gefnogi safleoedd cloddio mwynau sydd eisoes yno, yna estyniadau i safleoedd presennol cyn ystyried safleoedd newydd. Er hynny, dylid ystyried y dylai'r Cyngor gynnal banc tir am O LEIAF ddeg mlynedd ar gyfer cerrig mâl bob amser. Dylid ystyried cynlluniau adfer amgen ar wahân i'r traddodiad o ddychwelyd i safleoedd tir gwyrdd. | **Ddim yn derbyn** - Mae pwynt 9 yn adlewyrchu gofynion Polisi Cynllunio Mwynau Llywodraeth Cymru, a'r canllawiau perthnasol yn MTAN 1: Agregau a'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar Agregau (Adolygiad Cyntaf 2014).<br><br>Nid yw'r awgrym o hierarchaeth yn gynaliadwy gan fod pob safle'n cael ei asesu yn ôl ei haeddiant, yn unol â'r holl bolisïau sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun yn ogystal â pholisïau cenedlaethol.<br><br>Ystyrir bod materion banc tir yn derbyn sylw priodol yn y polisi.<br><br>Gall cynlluniau adfer amgen gynnwys rhai er budd mwynderol a bioamrywiaeth, ond mae'r sylw'n amwys o ran unrhyw ddefnyddiau arfaethedig. Mae'n rhaid i unrhyw gynigion ar gyfer ôl-ddefnydd gydymffurfio â pholisïau ac amcanion y cynllun datblygu lleol. |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | **Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim newid** |
| 502 | Gwasanaeth Cynllunio Archeoloegol Gwynedd(Mr Ashley Batten) [2959] | POLISI STRATEGOL PS19 | Cefnogi | Rhaid ystyried anghenion adfer ac ôl-ofal yng nghyd-destun chwareli o bwysigrwydd hanesyddol a thomenni llechi sydd ag arwyddocâd hanesyddol, er enghraifft. | **Nodi'r sylw yn cefnogi**<br><br>**Argymhelliad**<br><br>**Dim newid** |
| 594 | The Coal Authority (Mr James Smith) [2998] | POLISI STRATEGOL PS19 | Gwrthwynebu | Nid yw Polisi PS19 yn cyfeirio at gynigion arfaethedig ar gyfer hydrocarbonau a hydrocarbonau anghonfensiynol.<br><br>Awgrymwn y newidiadau hyn:<br>Ym Mholisi PS19, dylid cyfeirio at yr angen i unrhyw gynigion sy'n cael eu cyflwyno ar gyfer hydrocarbonau confensiynol neu anghonfensiynol gael eu hystyried yn unol â chanllawiau a pholisïau cenedlaethol. | **Ddim yn derbyn** - Mae polisïau ynni wedi'u cynnwys yn benodol yn adran 7.2 y ddogfen Byw'n Gynaliadwy, lle mae paragraff 7.2.1 yn nodi'r cyd-destun ar gyfer rhoi sylw i ddatblygu cynaliadwy a newid yn yr hinsawdd.<br><br>Hefyd, safbwynt LlC o ran 'ffracio hydrolig' sydd wedi'i nodi yn y Cyfarwyddyd Hysbysu, Chwefror 2015, (*Cyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysu) (Olew a Nwy Anghonfensiynol) (Cymru) 2015*). |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Ddim yn ystyried bod digon o dystiolaeth na chyfiawnhad dros gyflwyno achos arbennig ar gyfer hydrocarbonau a hydrocarbonau anghonfensiynol o dan fframwaith y polisi ar gyfer cynigion posibl am echdynnu methan o wely glo a/neu nwy siâl yn ardal y cynllun.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim newid** |
| 619 | Mineral Products Association (Mr Malcolm Ratcliff) [1647] | POLISI STRATEGOL PS19 | Gwrthwynebu | POLISI STRATEGOL PS19 - MWYNAU mae'n bosib y gall y polisi hwn gymysgu amcanion cynllunio mwynau sydd ar wahân, wrth eu rhoi o dan y teitl cyffredinol 'cyflenwi' ac felly nid yw'n gadarn.<br><br>Rydym yn cynnig y dylid ailstrwythuro'r polisi fel a ganlyn,<br>Bydd y Cynghorau yn cyfrannu tuag at alw rhanbarthol a lleol am gyflenwad | **Derbyn yn rhannol** - Ni ystyrir fod y cyfeiriad at 'gyflenwi' yn golygu nad yw'r polisi'n gadarn nac yn glir ac nid yw'n eithrio datblygu mwynau ar gyfer echdynnu cerrig wedi'u trin neu fwynau diwydiannol. Serch hynny, mae'n ddyletswydd statudol ar Awdurdodau Cynllunio Mwynau, drwy RAWPS, ac yn unol â Pholisi Cynllunio Mwynau Cymru a darpariaethau Datganiad Technegol Rhanbarthol Gogledd Cymru i gynnal banc tir o agregau wrth gefn, a dyma pam y mae wedi'i gynnwys fel maen prawf yn y polisi. |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | mwynau parhaus, diogel a chynaliadwy drwy:<br>1. Cynnal banc tir o Dywod a Graean am o leiaf 7 mlynedd a banc tir wrth gefn o agregau cerrig mâl am o leiaf 10 mlynedd drwy gydol cyfnod y cynllun yn unol ag arweiniad cenedlaethol.<br>2. Creu darpariaeth ar gyfer cynhyrchu cerrig wedi'u trin.<br>3. Creu darpariaeth ar gyfer cynhyrchu mwynau diwydiannol.<br>4. Uchafu'r defnydd o ddeunyddiau eilaidd, deunyddiau wedi'u hailgylchu, a gwastraff mwynau y darperir amdanynt mewn dyraniadau tir<br>5. Cydnabod, pan fo modd cyflawni egwyddorion datblygu cynaliadwy, fod ymestyn chwareli a/neu chwareli newydd yn debygol o fod yn briodol.<br>6. Ble mae angen cyflenwad newydd o fwynau, dylai'r rhain ddod o leoliadau lle nad oes llawer o gyfyngiadau amgylcheddol a ble yr ystyrir yr oblygiadau i gludiant.<br>7. Lleihau'r gwrthdaro posib rhwng | Mae'r polisi'n cyfeirio'n benodol at 'gyflenwad mwynau cynaliadwy' yn hytrach nag agregau. Mae'r testun ategol yn ei gwneud yn glir fod cerrig adeiladu a mwynau diwydiannol yn bwysig hefyd. Felly nid oes angen cynnwys *'creu darpariaethau ar gyfer cynhyrchu cerrig wedi'u trin/mwynau diwydiannol'* fel categori ar wahân.<br><br>Ystyrir fod Polisi Strategol PS19 yn adlewyrchu gofynion paragraff 10 Polisi Cynllunio Mwynau Cymru, o dan y pennawd 'Amcanion / egwyddorion canolog datblygu mwynau cynaliadwy', lle mae'r prif egwyddorion canlynol yn cael eu rhestru, ymhlith rhai eraill;<br><br>• Darparu adnoddau mwynau i fodloni anghenion cymdeithas a gwarchod adnoddau rhag cael eu sterileiddio,<br>• Sicrhau adfer o safon uchel ac ôl-ddefnydd buddiol.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Er mwyn sicrhau eglurder fe gynigir diwygio'r polisi ychydig. |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | defnyddiau tir sy'n gysylltiedig â mwynau a defnyddiau tir nad ydynt yn gysylltiedig â mwynau.<br><br>Bydd y Cynghorau'n diogelu adnoddau mwynau adnabyddedig / posibl rhag datblygu parhaol fyddai'n eu sterileiddio neu'n oedi echdyniad, ac yn diogelu cyfleusterau morwrol, glanfeydd a safleoedd terfynu rheilffordd er mwyn annog cludiant cynaliadwy o agregau. Bydd y Cynghorau'n sicrhau yr adferir y tir a gwaith ôl-ofal da.<br>Adolygir pob safle mwynau sy'n segur neu'n anweithredol ers cyfnod hir a nodir ar y Mapiau Cynigion er mwyn asesu eu cyfraniad posib i'r banc tir a'r tebygolrwydd o'u hailagor. Bydd Gorchmynion Gwahardd yn cael eu cyflwyno ble bo hynny'n briodol. | **Newid â ffocws: NF92** |
| 659 | Tŷ Mawr West ltd (John Hill) [3062] | POLISI STRATEGOL PS19 | Gwrthwynebu | PS18 Mwynau - Gwastraff Llechi<br><br>Nid yw'r crynodeb yn ymwneud â'r cysylltiad rheilffordd ym Mlaenau | **Ddim yn derbyn:** Mae cludo agregau ar reilffordd yn adlewyrchu egwyddorion datblygu cynaliadwy ac yn ddewis amgen ymarferol i gludo ar ffyrdd. |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Ffestiniog yn adlewyrchu holl ffeithiau'r mater. Oes, mae yna gysylltiad teithiwr rheilffordd ond nid yw'r isadeiledd rheilffordd ei hun yn addas ar gyfer trosglwyddo cerbydau nwyddau trwm fyddai angen gwaith adfer fyddai'n arwain at wariant mawr. | **Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim newid** |

## MWYN1 – Diogelu Adnoddau Mwynau

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| 248 | Ellesmere Sand & Gravel Company Limited [2686] | POLISI MWYN1 | Gwrthwynebu | Caiff y polisi ei gefnogi er mwyn sicrhau cyflenwad cyson a pharhaus o agregau. Er mwyn cydymffurfio â Pholisi Cynllunio Mwynau Cymru, dylai'r Cyngor gynnal banc tir o dywod a graean am O LEIAF saith mlynedd bob amser. Caiff y polisi ei gefnogi er mwyn sicrhau cyflenwad cyson a pharhaus o agregau. Er mwyn cydymffurfio â Pholisi Cynllunio Mwynau Cymru, dylai'r Cyngor gynnal banc tir o gerrig mâl am O LEIAF ddeg mlynedd | **Ddim yn derbyn** - Mae Polisi Mwyn 1 yn adlewyrchu gofynion Polisi Cynllunio Mwynau Llywodraeth Cymru a'r canllawiau perthnasol yn MTAN 1: Agregau a'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar Agregau (Adolygiad Cyntaf 2014).<br><br>Mae digon o sylw'n cael ei roi i fanciau tir ym Mholisi PS19.<br><br>**Argymhelliad** |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | bob amser. Yn amlwg, byddai'n fuddiol pe baent yn dod o chwareli presennol.<br><br>Ystyrir dylai'r Cyngor gynnal banc tir o dywod a graean am O LEIAF saith mlynedd bob amser a chael rhagdybiaeth bositif tuag at echdynnu mwynau yn arbennig mewn safleoedd presennol. | **Dim newid** |
| 249 | Lafarge Tarmac Trading Limited [2735] | POLISI MWYN1 | Gwrthwynebu | Caiff y polisi ei gefnogi er mwyn sicrhau cyflenwad cyson a pharhaus o agregau.. Er mwyn cydymffurfio â Pholisi Cynllunio Mwynau Cymru, dylai'r Cyngor gynnal banc tir o gerrig mâl am O LEIAF ddeg mlynedd bob amser. Yn amlwg, byddai'n fuddiol pe baent yn dod o chwareli presennol.<br><br>Ystyrir dylai'r Cyngor gynnal banc tir o gerrig mâl am O LEIAF ddeg mlynedd bob amser a chael rhagdybiaeth bositif tuag at echdynnu mwynau yn arbennig mewn safleoedd presennol. | **Ddim yn derbyn** - Mae Polisi Mwyn 1 yn adlewyrchu gofynion Polisi Cynllunio Mwynau Llywodraeth Cymru a'r canllawiau perthnasol yn TAN 1: Agregau a'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar Agregau (Adolygiad Cyntaf 2014).<br><br>Mae digon o sylw'n cael ei roi i fanciau tir ym Mholisi PS19.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim newid** |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| 600 | The Coal Authority (Mr James Smith) [2998] | POLISI MWYN1 | Gwrthwynebu | Mae'r Awdurdod Glo yn ystyried nad oes tystiolaeth ddigonol wedi'i darparu i gyfiawnhau hepgor yr Ardal Diogelu Mwynau sy'n cynnwys maes glo Caernarfon, nad yw'n ymddangos ei fod wedi'i leoli mewn ardal sy'n cael ei gynnwys mewn unrhyw ddynodiad Rhyngwladol na Chenedlaethol.<br><br>Awgrymwn y newid a ganlyn:<br>Dylid ychwanegu Ardal Diogelu Mwynau sy'n cynnwys maes glo Caernarfon ar y Map Cynigion. | **Ddim yn derbyn** - Er gwaethaf y wybodaeth hanesyddol a'r wybodaeth geodechnegol ddiweddar, nid ydym yn gwybod llawer am yr adnodd glo, dim ond, yn ôl pob golwg, ei fod yn cael ei orchuddio gan haen sylweddol o wenithfaen caled iawn tua'r gogledd, sy'n gyson â'r wybodaeth sydd ar gael yng nghyhoeddiad ADP, 2010, 'Map o Adnoddau Mwynol Cymru'. Mae'n ymddangos fod yr holl adnoddau glo yn gorwedd o dan '*greigiau igneaidd eraill, gan gynnwys basalt, ffelsit, gabro, twff a gwenithfaen*', ac mae'r ddaeareg orchuddiol yn cyfyngu ar echdynnu unrhyw lo, felly isel iawn yw'r posibilrwydd o fanteisio ar hyn yn fasnachol. At ei gilydd, ni ystyrir y dylid diogelu adnoddau glo gogledd-ddwyrain Caernarfon ar fapiau cynigion na chyfyngiadau'r CDU.<br><br>Cyflwynwyd ymholiad i Adran Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru ynghylch unrhyw arolygon geo dechnegol a baratowyd ymlaen llaw ar gyfer y ffordd osgoi arfaethedig yn y Bontnewydd. Mewn ymateb, cadarnhawyd bod cyfres o dyllau turio wedi cael eu drilio yn yr ardal sy'n agos at yr adnoddau glo, lle mae llinell y ffordd sy'n cael ei gwarchod yn croestorri, ond wrth baratoi'r ymateb |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | hwn, nid yw'r cofnodion ar gyfer y tyllau turio wedi'u cyhoeddi.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim newid** |
| 620 | Mineral Products Association (Mr Malcolm Ratcliff) [1647] | POLISI MWYN1 | Gwrthwynebu | Nid oedd modd dod o hyd i unrhyw gyfeiriad at yr Ardaloedd Diogelu Mwynau, ar y Map Cynigion nac yn Allwedd y map. Ystyried fod y meini prawf arfaethedig ar gyfer asesu datblygiadau nad ydynt yn gysylltiedig â mwynau yn aneglur. Diffyg y polisi yw nad yw'n manylu ar adroddiad mwynau ddylai ddarparu gwybodaeth ar faint ac ansawdd y mwyn sydd o bosib wedi'i sterileiddio; nid yw'n gwahaniaethu rhwng ffurfiau datblygu parhaol sy'n peri risg gwirioneddol i sterileiddio mwynau a'r ffurfiau sy'n ymdebygu mwy i geisiadau llai, nad ydynt yn peri'r risg | **Derbyn yn rhannol** - Mae'r Ardaloedd Diogelu Mwynau wedi'u cynnwys ar y map cyfyngiadau mewn gwirionedd, felly dylid diwygio geiriad y polisi yn unol â hynny i gyfeirio at y map '*cyfyngiadau*' yn hytrach na'r map '*cynigion*'.<br><br>O ran sut dylid rheoli datblygiadau mewn Ardaloedd Diogelu Mwynau, mae'r rhan fwyaf o adnoddau mwynol y tu allan i ardaloedd trefol a dynodiadau posibl yn y CDU, felly id oes llawer o gyfle o gwbl ar gyfer datblygiadau sy'n gwrthdaro â'i gilydd mewn ardaloedd o'r fath.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Er mwyn sicrhau eglurder, dylai geiriad y polisi |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | hwn; nid yw ychwaith yn gofyn am gyflwyno datganiad o'r angen perthnasol rhwng y mwyn a'r datblygiad arfaethedig i'r Awdurdod Cynllunio Mwynau i benderfynu ar y cydbwysedd cynllunio.<br><br>Wedi darparu polisi manwl yn ei le (gweler atodiad) | gyfeirio at y 'Map Cyfyngiadau' yn hytrach na'r 'Map Cynigion'.<br><br>**Newid Bychan: NB20** |

## MWYN2 – Cyflenwad Cynaliadwy O Adnoddau Mwynol

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| 250 | Ellesmere Sand & Gravel Company Limited [2686] | POLISI MWYN2 | Gwrthwynebu | Dylid bod rhagdybiaeth polisi cadarnhaol o blaid mynd ar drywydd estyniadau i safleoedd presennol a newydd.<br><br>Dylid y polisi annog ymestyniadau o flaen safleoedd newydd. | **Ddim yn derbyn -** Ystyrir fod Polisi PS19 a Mwyn 1 yn rhoi digon o sylw i'r mater.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim newid** |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
| 251 | Lafarge Tarmac Trading Limited [2735] | POLISI MWYN2 | Gwrthwynebu | Dylid bod rhagdybiaeth polisi cadarnhaol o blaid mynd ar drywydd estyniadau i safleoedd presennol.<br><br>Dylai'r polisi annog i safleoedd ddod ymlaen gydag estyniadau i safleoedd presennol yn cael eu ffafrio dros safleoedd newydd. | **Ddim yn derbyn -** Ystyrir fod Polisi PS19 a Mwyn 1 yn rhoi digon o sylw i'r mater.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim newid** |
| 621 | Mineral Products Association (Mr Malcolm Ratcliff) [1647] | POLISI MWYN2 | Gwrthwynebu | Yn sgil y ffaith y nodir maint y banc tir i gael ei sicrhau trwy bolisi mewn digon o fanylder ym mholisi PS19, gofynnwn a oes angen y polisi hwn, ac a yw'n ddyblygiad? Mae'r polisi felly'n groes i brawf cadernid CE1.<br><br>Awgrymwn y dylid ei ddileu. | **Derbyn** – Cytunir mai dyblygiad o bolisi strategol PS19 yw Polisi MWYN2 ac y dylid ei ddileu.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Er mwyn osgoi ailadrodd diangen, bydd Polisi MWYN2 yn cael ei ddileu a bydd y paragraff eglurhad yn cael ei gynnwys yn y cyflwyniad i'r adran ar Fwynau yn y cynllun (ar ôl para 7.5.61).<br><br>**Newid Bychan: NB19** |
| 321 | Lafarge Tarmac Trading Limited [2735] | 7.5.66 | Gwrthwynebu | Mae angen mynegi'r gofyn am fanc tir fel o leiaf saith mlynedd ar gyfer tywod a gro ac o leiaf ddeg mlynedd ar gyfer cerrig mâl bob amser trwy'r cynllun drwyddi draw ac ar ddiwedd y cynllun. | **Ddim yn derbyn** - Mae'r paragraff eglurhad yn adlewyrchu gofynion Polisi Cynllunio Mwynau Llywodraeth Cymru a'r canllawiau perthnasol yn MTAN 1: Agregau a'r Datganiad Technegol |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|
